



GIG  
CYMRU  
NHS  
WALES

Iechyd Cyhoeddus  
Cymru  
Public Health  
Wales



Canolfan Gydwethredol Sefydliad  
Iechyd y Byd ar Fuddsoddi  
ar gyfer Iechyd a Llesiant



*Llywio, dylanwadu a chydweithio  
ar gyfer iechyd y cyhoedd yng Nghymru  
Informing, influencing and collaborating  
for public health in Wales*

# Incwm sylfaenol i wella iechyd a llesiant y boblogaeth yng Nghymru?



# Incwm sylfaenol i wella iechyd a llesiant y boblogaeth yng Nghymru?

Awdur: Adam Jones, Uwch Swyddog Polisi, Iechyd Cyhoeddus Cymru

## Cyfeiriad a awgrymir:

Jones A (2021). Incwm sylfaenol i wella iechyd a llesiant y boblogaeth yng Nghymru? Caerdydd: Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru

## Diolchiadau

Hoffai'r awdur ddiolch i'r Athro Mark Bellis a Dr. Sumina Azam am adolygu'r drafftiau cynharach o'r adroddiad hwn ac am eu sylwadau, sydd wedi bod o gymorth mawr gyda'r gwaith, ac yn fwy cyffredinol am eu brwdfrydedd a'u cefnogaeth i'r prosiect.

## Ariannwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn un o sefydliadau'r GIG sy'n darparu cyngor a gwasanaethau iechyd cyhoeddus proffesiynol ac annibynnol i ddiogelu a gwella iechyd a llesiant poblogaeth Cymru. Ariannwyd cynhyrchu'r adroddiad hwn gan Iechyd Cyhoeddus Cymru.



GIG  
CYMRU  
NHS  
WALES | Iechyd Cyhoeddus  
Cymru  
Public Health  
Wales



Canolfan Gydwethredol Sefydliad  
Iechyd y Byd ar Fuddsoddi  
ar gyfer Iechyd a Llesiant



Llywio, dylanwadu a chydweithio  
ar gyfer iechyd y cyhoedd yng Nghymru  
Informing, influencing and collaborating  
for public health in Wales

Polisi ac Iechyd Rhyngwladol, Canolfan Gydwethredol  
Sefydliad Iechyd y Byd ar Fuddsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant  
Iechyd Cyhoeddus Cymru

Llawr 5  
2 Capital Quarter  
Stryd Tyndall  
Caerdydd  
CF10 4BZ

Ffôn: +44 (0)29 2022 7744

E-bost: [general.enquiries@wales.nhs.uk](mailto:general.enquiries@wales.nhs.uk)

© 2021 Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Gellir atgynhyrchu'r deunydd a gynhwysir yn y ddogfen hon o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored (OGL)  
[www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/](http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/)

ar yr amod y caiff ei wneud yn gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Cydnabyddiaeth i'w nodi i Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Mae hawlfraint o ran y trefniant teipograffyddol, y dyluniad a'r diwyg yn perthyn i Iechyd Cyhoeddus Cymru.

ISBN: 978-1-78986-154-191

# Cynnwys

Cynnwys	1
Crynodeb Gweithredol	2
Crynodeb - Ystyriaethau	5
1. Cyflwyniad	6
2. Ynglŷn ag Incwm Sylfaenol	8
3. Incwm sylfaenol, iechyd a llesiant	27
4. Incwm sylfaenol yng Nghymru: cymryd y cam nesaf	35
5. Casgliadau	38
6. Cyfeiriadau	42
7. Atodiadau	48



# Crynodeb Gweithredol

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gyda chyfnod o ddirwasgiad economaidd byd-eang ac, yn sgil hynny, polisiau cyni llywodraeth y Deyrnas Unedig, ac yn fwy diweddar mewn ymateb i'r pandemig COVID-19, gwelwyd y diddordeb mewn hen syniad polisi - incwm sylfaenol cyffredinol - yn ailgynnau.

Mae'r adroddiad hwn wedi'i anelu at y rhai sy'n gwneud penderfyniadau ac sy'n ystyried incwm sylfaenol yng Nghymru, yng ngoleuni'r diddordeb cynyddol yn y polisi. Mae'n cyflwyno'r cysyniad o incwm sylfaenol, yn arfarnu'r dystiolaeth bresennol o gynlluniau a threialon sydd eisoes yn bodoli, ac yn archwilio pa gamau y byddai angen i Gymru eu hystyried wrth ddatblygu cynnig incwm sylfaenol gyda gwella iechyd a llesiant yn un o'i brif amcanion. Nid yw'r adroddiad hwn yn gwneud argymhellion ffurfiol; yn hytrach, ei nod yw darparu tystiolaeth i lywio'r ddadl, i gefnogi penderfyniadau yn y dyfodol, ac i ddylanwadu ar y syniadau ar gyfer ymchwil bellach.



## Yr hyn a ganfuwyd

### Mae diffinio incwm sylfaenol a chreu cynlluniau incwm sylfaenol yn gymhleth ac yn heriol

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r cysyniad o incwm sylfaenol (gweler Adran 2). Mae diffinio incwm sylfaenol yn fater cymhleth, gyda rhywfaint o ddadl ynghylch a oes rhaid i gynlluniau incwm sylfaenol fod yn rhai cyffredinol (sy'n cael eu talu i bawb heb brawf modd) ac yn ddiamod (er enghraifft, eu talu heb ofyniad i weithio). Mae dadl ynghylch sut y dylid darparu incwm sylfaenol, er enghraifft, a ddylai ddisodli budd-daliadau lles presennol yn llwyr neu eu hategu. I ryw raddau mae'r myrdd o ddulliau gweithredu a safbwyntiau yn ddealladwy - wedi'r cyfan, nid oes unrhyw ddau bolisi cymdeithasol ledled y byd ar bwnc penodol yn union yr un fath o ran eu nodau, eu hamcan a'u cylch gwaith. Nid oes polisi 'oddi ar y silff' y gellir ei drosi i gyd-destun Cymru, nac ychwaith enghraifft ddiffiniol sy'n 'arfer da' o gynllun incwm sylfaenol. Mantais hyn yw ei fod yn caniatáu i lunwyr polisiâu greu cynnig i fodloni cyd-destun, amcanion ac uchelgeisiau lleol. Mae incwm sylfaenol sydd â gwella iechyd a llesiant a sicrwydd incwm fel blaenoriaethau cyfartal yn ymarferol; fodd bynnag, mae amrywiaeth o faterion i fynd i'r afael â hwy ac ymchwil bellach i'w wneud o hyd. Mae'r rhain yn cynnwys yr angen am waith modelu economaidd llawn ac eang sy'n gysylltiedig â chyd-destun Cymru, ac ystyriaeth realistig o sut y gellid cyllido, gweinyddu a chyflwyno cynllun incwm sylfaenol mewn cyd-destun datganoledig.

***Mae angen gwaith modelu economaidd llawn ac eang sy'n gysylltiedig â chyd-destun Cymru, ac ystyriaeth realistig o sut y gellid cyllido, gweinyddu, a chyflwyno incwm sylfaenol mewn cyd-destun datganoledig.***

### Mae cefnogaeth i'r cysyniad o incwm sylfaenol yn cynyddu yng Nghymru a'r DU - ond mae beirniadaeth o hyd

Mae cysyniadau ar gyfer cynlluniau peilot incwm sylfaenol a chefnogaeth wleidyddol o bob rhan o'r sbectrwm ideolegol wedi cynyddu yn ystod y degawd diwethaf (gweler Adran 2).

***Byddai Asesiad manwl o Effaith ar Iechyd, gan ystyried effeithiau posibl incwm sylfaenol ar bolisi, yn helpu i ddeall yn well oblygiadau incwm sylfaenol i iechyd a llesiant.***

Mae cefnogwyr y cysyniad yn gweld incwm sylfaenol fel ymateb polisi posibl i heriau cyni, fel ffordd o leihau pryder a straen, fel strategaeth ar gyfer lleihau tlodi, ac fel ateb parod i'r cynnydd mewn awtomeiddio fel risg i'r farchnad lafur. Mae barn y cyhoedd yn dangos bod pryder tebyg ynghylch y system les bresennol, lle yr ystyrir bod incwm sylfaenol yn 'ddewis arall ffafriol', ac mae'r pandemig COVID-19 wedi gwaethygu llawer o'r pryderon hyn (gweler tudalen 12). Serch hynny, mae hyd yn oed y rhai sy'n cefnogi incwm sylfaenol yn

gyffredinol yn cwestiynu rhai agweddau ar y cysyniad, megis pa mor deg a chyfiawn fyddai cynllun cyffredinol. Mae dulliau tebyg o ymdrin ag incwm sylfaenol yn cynnwys gwasanaethau cyhoeddus cyffredinol neu 'gronfa cyfleoedd sylfaenol gyffredinol' - dylai llunwyr polisiâu hefyd ystyried y dulliau amgen hyn sy'n ceisio atebion polisi i heriau presennol (gweler tudalen 17).

Mae hefyd yn bwysig cydnabod bod gan incwm sylfaenol nifer o feirniaid, eto ar draws y sbectrwm gwleidyddol (gweler tudalen 16). Mae beirniadaeth yn canolbwyntio ar bryderon ynghylch y gost weithredu, ofnau ynghylch ei effaith ar y farchnad lafur, a diffyg amodoldeb rhai cynigion. Mae'r ddadl ynghylch incwm sylfaenol yn tynnu sylw at yr angen i ddatblygu cynigion cyflawn, gan ystyried ystod o sefyllfaoedd posibl - byddai Asesiad manwl o'r Effaith ar Iechyd, gan ystyried

effeithiau cyffredinol eang incwm sylfaenol, yn helpu i ddeall yn well oblygiadau incwm sylfaenol i iechyd a llesiant.

## Mae gwelliannau i iechyd i'w gweld mewn rhai o'r enghreifftiau rhyngwladol o weithredu cynlluniau

Mae'r adroddiad hwn yn ystyried incwm sylfaenol, iechyd a phenderfynyddion ehangach iechyd yn Adran 3. Cafwyd canfyddiadau perthnasol yn ymwneud ag iechyd o gynlluniau incwm sylfaenol a weithredwyd dros nifer o flynyddoedd, yn fwyaf diweddar o'r cynlluniau hynny yn Ontario, Canada a'r Ffindir. Fodd bynnag, yn y rhan fwyaf o achosion, rhaid bod yn ofalus wrth ddehongli'r canfyddiadau hyn oherwydd hyd cyfyngedig y treialon neu'r cynlluniau. Yn ogystal, nid oedd llawer o adroddiadau yn ystyried canlyniadau iechyd, a phrin yw'r gwaith gwerthuso a wnaed ar y cynlluniau a roddwyd ar waith. Ymhlith y canfyddiadau mae'r canlynol:

- Gwelwyd gostyngiad o 8.5% yn y derbyniadau i'r ysbyty ymhlith y rhai sy'n cael incwm sylfaenol yn Dauphin, Manitoba yn y 1970au - yn enwedig mewn perthynas â damweiniau, anafiadau a chyflyrau iechyd meddwl;
- Nodwyd ymweliadau llai aml â gwasanaethau iechyd yn Ontario;
- Nododd dros 80% o ymatebwyr i'r arolwg yn Ontario fod eu hiechyd wedi gwella - mewn arolwg cynharach o dderbynyddion gwelwyd bod 45% yn nodi bod ganddynt lai o broblemau iechyd, 88% yn nodi bod eu lefelau straen a phryder wedi lleihau a 73% yn nodi eu bod yn dioddef llai o iselder;
- Nodwyd gwell canlyniadau iechyd meddwl ymhlith y rhai a oedd yn cael yr incwm sylfaenol yn y Ffindir - adroddwyd am lefelau is o unigrwydd ac iselder, ac roedd boddhad cyffredinol gyda bywyd wedi gwella.
- Yn sgil cynllun difidend casino Gogledd Carolina, hanerodd nifer y plant a oedd yn byw mewn tldi ymhlith teuluoedd a oedd yn derbyn yr incwm, a gwelwyd gostyngiad o 40% mewn problemau ymddygiad. Wrth i'r plant ddod yn oedolion, gwelwyd cyfraddau is o anhwylderau seiciatryddol ac anhwylderau'n gysylltiedig â defnyddio sylweddu.

O safbwynt penderfynyddion iechyd ehangach, cafwyd effeithiau cyfyngedig ond cadarnhaol ar amrywiaeth o feysydd polisi yn sgil gweithredu cynlluniau incwm sylfaenol, gan gynnwys mewn perthynas â:

- Gwella sicrwydd incwm;
- Gostyngiadau mewn tldi plant, a gwelliannau mewn canlyniadau plentyndod eraill;
- Mwy o gynhwysiant cymdeithasol;
- Gwell cyrhaeddiad addysgol;
- Gwelliannau o ran tegwch, yn arbennig i'r anabl a menywod;
- Cyflenwad bwyd mwy diogel a gwell maeth; a
- Gwelliannau i ansawdd tai ac opsiynau tai mwy fforddiadwy.

***Nodwyd gwell canlyniadau iechyd meddwl ymhlith y rhai a oedd yn cael yr incwm sylfaenol yn y Ffindir - adroddwyd am lefelau is o unigrwydd ac iselder, ac roedd boddhad cyffredinol gyda bywyd wedi gwella.***

Rydym hefyd yn nodi bod Swyddfa Ranbarthol Ewrop Sefydliad Iechyd y Byd (WHO) yn ystyried y potensial ar gyfer incwm sylfaenol fel ffordd o fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd, gan fframio'r ddadl fel mater o gyfiawnder cymdeithasol. Mae Sefydliad Iechyd y Byd yn adolygu sut y gellir cynllunio unrhyw gynllun incwm sylfaenol i hyrwyddo tegwch iechyd.

# Crynodeb - Ystyriaethau

**Yng nghasgliad yr adroddiad (gweler tudalennau 38-40) cyflwynir yr ystyriaethau allweddol i'r rhai sy'n ceisio hyrwyddo'r ddadl dros incwm sylfaenol yng Nghymru. I grynhoi:**

**Dylai'r rhai sy'n gweithio i wella iechyd a llesiant y boblogaeth ymgyswngtu â'r dadleuon allweddol ynghylch incwm sylfaenol ac ystyried effeithiau posibl unrhyw gynigion ar iechyd**

- Er mwyn sicrhau bod cynnig i gyflwyno incwm sylfaenol yn gadarn, rhaid i gynigwyr ystyried yr hyn y gall incwm sylfaenol ei wneud i wella iechyd a llesiant yng ngoleuni'r statws iechyd presennol a chyd-destun polisi cyhoeddus.

**Rhaid i unrhyw gynigion incwm sylfaenol yn y dyfodol fod yn gredadwy, yn briodol ar gyfer y cyd-destun, ac yn glir ynghylch y nodau a'r amcanion**

- Mae cynnig cryf ar gyfer cynllun incwm sylfaenol yn gofyn am ddull gweithredu amlsector, aml-ddisgyblaethol o ran dylunio'r cynllun, ei oruchwylio, ei reoli o ddydd i ddydd a'i werthuso. Rhaid i gyfranogiad y cyhoedd fod yn rhan gynhenid o'r broses ar bob cam.
- Rhaid i gynigion hefyd gynnwys arfarniad o'r hyn sy'n ymarferol yng nghyd-destun datganoli. Dylai hyn ystyried pa effaith y mae incwm sylfaenol yn debygol o'i chael ar feysydd polisi cyhoeddus datganoledig a heb eu datganoli.
- Rhaid datblygu a chyflawni cynllun i wneud gwaith modelu economaidd a chynnal astudiaethau dichonoldeb ac asesiadau effaith fel rhan o'r cynnig.

**Os bydd incwm sylfaenol yn symud ymlaen o gynnig i gynllun peilot, mae'n bwysig:**

- Ymrwymo i'r cynllun peilot bara am gyfnod sy'n ddigon hir i gynhyrchu tystiolaeth o effaith. Dylai'r ymrwymiad hwn gynnwys darparu adnoddau ar gyfer monitro a gwerthuso'r cynllun peilot. Mae'n hanfodol monitro'r canlyniadau sy'n gysylltiedig ag incwm sylfaenol yn helaeth - mewn nifer o achosion, gellid defnyddio setiau data presennol i gyflawni hyn.
- Bod y cynllun incwm sylfaenol yn cael ei ddarparu gan ystod o randdeiliaid. Rhaid i'r rhanddeiliaid hyn fod yn ymrwymedig i'r cynllun peilot a bod yn barod i barhau i gyflawni'r cynllun yn y tymor hir, pe bai'n cael ei weithredu'n barhaol yn dilyn hynny.

# 1. Cyflwyniad

**Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gyda chyfnod o ddirwasgiad economaidd byd-eang ac, yn sgil hynny, polisiau cyni, ac yn fwy diweddar mewn ymateb i bandemig COVID-19, gwelwyd y diddordeb mewn hen syniad polisi - incwm sylfaenol cyffredinol - yn ailgynnu. Mae'n gysyniad anarferol ym maes polisi cyhoeddus gan fod ganddo gefnogwyr a beirniaid o bob rhan o'r sbectrwm gwleidyddol, o'r rhai sy'n ei ystyried yn gyfle i leihau maint y wladwriaeth a'i hymwneud â bywydau pobl, i'r rhai sy'n ei weld fel math cryfach o amddiffyniad cymdeithasol. Mae rhai yn gweld incwm sylfaenol fel ateb ar gyfer ystod eang o broblemau cymdeithasol, gan gynnwys mynediad at addysg, tegwch rhwng y rhywiâu, cyflogaeth ansicr, ac afiechyd.**

Nid oes un patrwm penodol ar gyfer cynllun incwm sylfaenol, ond yr hyn sydd gan bob un yn gyffredin yw trosglwyddo arian parod i unigolion o'r wladwriaeth yn gyfnewid am nesaf peth i ddim neu ddim byd o gwbl, gan droi'r contract cymdeithasol presennol, lle yr ystyrir bod incwm a enillir yn hollbwysig, ar ei ben. Yn wir, mae diffiniadau a therminoleg amrywiol ar waith; yn y cyhoeddiad hwn drwyddo draw, rydym yn cyfeirio'n syml at 'incwm sylfaenol', a'r diffiniad safonol a ddarperir gan y Rhwydwaith Daear Incwm Sylfaenol, sef *taliad arian parod cyfnodol a ddarperir yn ddiamod i bawb ar sail unigol, heb brawf modd na gofyniad i weithio*.

Pwrpas yr adroddiad hwn yw hysbysu'r rhai sy'n llunio polisiau ac yn gwneud penderfyniadau am incwm sylfaenol, cynyddu gwybodaeth a dealltwriaeth ymhlith sefydliadau rhanddeiliaid a'r system iechyd cyhoeddus, a chyfrannu at y trafodaethau a'r dadleuon cyfredol. Yn 2019, cyhoeddodd Swyddfa Ranbarthol Ewrop Sefydliad Iechyd y Byd adroddiad yn edrych ar yr hyn y gallai incwm sylfaenol ei olygu i degwch o ran iechyd, gan ystyried incwm sylfaenol yng nghyd-destun y rôl ataliol y gall sicrwydd o ran incwm ei chwarae, a chyflwyno iechyd fel mater o gyfiawnder cymdeithasol (Haagh a Rohregger 2019). Mae diddordeb mewn sut y gallai incwm sylfaenol wella canlyniadau iechyd a thegwch o ran iechyd yn faes sy'n dod i'r amlwg mewn trafodaethau polisi ledled y byd, ac mae'r ddadl hon wedi dwysáu yn sgil dyfodiad COVID-19, a'r effeithiau a welwyd neu a ragwelir ar degwch, gwaith a'r economi ehangach.

Mae incwm sylfaenol yn hen syniad sy'n cael ei atgyfodi wrth i lywodraethau a llunwyr polisiau geisio dod o hyd i atebion i ansicrwydd economaidd, annhegwch, datgysylltiad cymunedau a dyfodol byd gwaith - sydd oll yn heriau sydd wedi gwaethygu yn sgil COVID-19. A allai incwm sylfaenol symud y tu hwnt i'r damcaniaethol a chael ei weithredu'n ymarferol yng Nghymru, ac os felly, pa effaith fyddai hyn yn ei chael ar iechyd a llesiant y boblogaeth?





## Ynglŷn â'r adroddiad hwn

Mae'r adroddiad hwn wedi'i anelu at y rhai sy'n gwneud penderfyniadau ac sy'n ystyried incwm sylfaenol yng Nghymru, yng ngoleuni'r diddordeb cynyddol yn y cysyniad fel rhan o'r ymateb i'r pandemig COVID-19 ac adfer ohono. Mae'n cyflwyno incwm sylfaenol i'r rhai sy'n anghyfarwydd â'r cysyniad. Mae hefyd yn archwilio'r dystiolaeth iechyd bresennol sy'n gysylltiedig ag arbrofion yn ymwneud ag incwm sylfaenol a chynlluniau sy'n bodoli eisoes. Gan fabwysiadu dull yn seiliedig ar iechyd cyhoeddus, rydym yn ystyried iechyd yn ei ystyr ehangaf, gan dynnu sylw at dystiolaeth sy'n gysylltiedig â phenderfynyddion iechyd cymdeithasol, diwylliannol, economaidd ac amgylcheddol ehangach.

Mae tair adran wahanol i'r adroddiad:

- Cyflwyniad i'r cysyniad o incwm sylfaenol, gan gynnwys ystyried canlyniadau cynlluniau peilot a chynlluniau a weithredwyd yn llawn, y cynigion presennol ar gyfer incwm sylfaenol yn y Deyrnas Unedig, a'r feirniadaeth o incwm sylfaenol;
- Dadansoddiad o'r dystiolaeth sy'n ymwneud ag iechyd a llesiant ac incwm sylfaenol;
- Archwiliad o sut olwg fyddai ar gynllun incwm sylfaenol llwyddiannus yng Nghymru pe bai gwella iechyd yn un o'i brif nodau, ynghyd â myfyrdod byr ar gysyniadau polisi cyhoeddus tebyg y gellid eu hystyried fel dewis amgen i incwm sylfaenol.

Mae dyfyniadau mewn blychau testun drwy'r adroddiad cyfan yn tynnu sylw at arsylwadau ansoddol, anecdotaidd am incwm sylfaenol.

Lluniwyd yr adroddiad hwn cyn i Lywodraeth Cymru gyhoeddi cynllun peilot ar incwm sylfaenol ym mis Mai 2021.

## Eithriadau

Nid yw'r adroddiad trafodaeth hwn yn cynnig model economaidd manwl o gynllun incwm sylfaenol arfaethedig yng Nghymru, na senarios ar gyfer ei weithredu, ac nid yw ychwaith yn rhagweld lefel incwm sylfaenol y gellid ei gynnig i unigolion.

## COVID-19 a'r adroddiad hwn

Gyda'r newidiadau dramatig y mae'r pandemig COVID-19 a'r ymatebion polisi cysylltiedig wedi'u cyflwyno i gymdeithas Prydain a'i heconomi, a chydag effeithiau anochel ar y farchnad, ar gymdeithas ac ar yr economi, mae incwm sylfaenol wedi cael ei nodi gan rai fel ateb posibl i gefnogi'r broses o adfer o'r pandemig. Rydym wedi myfyrio ar incwm sylfaenol yng nghyd-destun COVID-19 yn yr adroddiad hwn, lle bo hynny'n berthnasol.

## 2. Ynglŷn ag Incwm Sylfaenol

Mae'r adran hon o'r adroddiad yn diffinio incwm sylfaenol ac yn archwilio'r gwahanol ffurfiau posibl ar gyfer cynllun incwm sylfaenol.

### Diffinio incwm sylfaenol

Yn yr adroddiad hwn drwyddo draw, rydym yn cyfeirio'n syml at 'incwm sylfaenol' neu 'gynlluniau incwm sylfaenol' wrth drafod y cysyniad o incwm sylfaenol. I raddau helaeth, mae diffinio incwm sylfaenol yn fater semantig - wedi'r cyfan, nid oes unrhyw ddau bolisi cymdeithasol ledled y byd ar bwnc penodol yn union yr un fath o ran eu nodau, eu hamcan a'u cylch gwaith - ond mae diffinio incwm sylfaenol yn parhau i fod yn fater cymhleth y ceir cryn ddadlau yn ei gylch.

*"...taliad arian parod cyfnodol a wneir yn ddiamod i bawb ar sail unigol, heb brawf modd na gofyniad i weithio."*

Rhwydwaith Daear Incwm Sylfaenol  
- About Basic Income (Cyfieithiad)

Mae incwm sylfaenol yn fath o nawdd cymdeithasol, fodd bynnag, mae cyfansoddiad cynlluniau o'r fath a'r ffordd y maent yn cael eu gweithredu, a pha mor amodol neu ddiamod ydynt, yn amrywio. Mae'r Rhwydwaith Daear Incwm Sylfaenol yn diffinio incwm sylfaenol fel 'taliad arian parod cyfnodol a wneir yn ddiamod i bawb ar sail unigol, heb brawf modd na gofyniad i weithio' (Rhwydwaith Daear Incwm Sylfaenol 2017). At hynny, mae'r Rhwydwaith Daear Incwm Sylfaenol o'r farn bod incwm sylfaenol yn cynnwys pum nodwedd:



**1. Cyfnodol:** fe'i telir yn rheolaidd (er enghraifft bob mis), nid fel grant unwaith ac am byth.



**2. Taliad arian parod:** fe'i telir mewn dull priodol, sy'n caniatáu i'r rhai sy'n ei dderbyn benderfynu'r hyn y mae'n nhw'n mynd i'w wario arno. Felly, nid yw'n cael ei dalu mewn nwyddau (megis bwyd neu wasanaethau) nac mewn talebau at ddefnydd penodol.



**3. Unigol:** fe'i telir i unigolion—ac nid, er enghraifft, i aelwydydd.



**4. Cyffredinol:** fe'i telir i bawb, heb brawf modd.



**5. Diamod:** fe'i telir heb ofyniad i weithio neu i ddangos parodrwydd i weithio.

Gellir ystyried y diffiniad hwn, a'r pum nodwedd a amlinellir, yn gysyniad clasurol o gynllun incwm sylfaenol. Fel y gwelwn yn yr adroddiad hwn drwyddo draw, mae cynlluniau incwm sylfaenol yn gyfnewidiol iawn yn dibynnu ar y cyd-destun diwylliannol a gwleidyddol, ac felly hefyd nodau ac amcanion y cynllun arfaethedig neu'r cynllun a weithredir.

## Ffurf a dyluniad cynlluniau incwm sylfaenol

Gall cynlluniau incwm sylfaenol fod ar sawl ffurf; mae tabl 1 yn amlinellu chwech o'r prif dermau a ddefnyddir i ddisgrifio'r rhain. Mae ffurf cynllun incwm sylfaenol yn dibynnu i raddau helaeth ar gymhelliant y rhai sy'n gweithredu'r cynllun, yn benodol:

- P'un a yw'r cynllun yn gwbl ddiamed, ynteu a oes amodau ar gyfer y rhai sy'n derbyn yr incwm;
- P'un a yw'r cynllun yn gwbl gyffredinol - er enghraifft, a yw'n berthnasol i bob oedolyn, pob oedolyn a phlentyn, y rhai sy'n ennill llai na swm penodol, neu'r rhai sy'n ddi-waith yn unig;
- P'un a yw'r cynllun wedi'i gynllunio i ategu neu i ddisodli'r darpariaethau lles presennol.

Mae eraill yn disgrifio cynlluniau incwm sylfaenol 'llawn' neu 'rannol', ond mae'r rhain yn ddiffiniadau aneglur iawn, ac felly nid ydynt yn rhan o'r adroddiad hwn.

*"Credwn hefyd mai dim ond os yw'n rhan o ddull cynhwysfawr sy'n cynnwys cynnydd ar bolisiau a rhaglenni allweddol eraill, ac nid yn disodli dull o'r fath, y gall incwm sylfaenol gael effaith gref ar amodau tldi a chyflogaeth ansicr sy'n niweidiol i iechyd"*

Jaeger a Wodchis 2017  
(Cyfieithiad)

*"Rhaid rhannu'r manteision economaidd gyda'r rhai sy'n byw ochr yn ochr â'r safleoedd hyn a bydd y cyllid hwn yn sicrhau bod pobl leol yn elwa hefyd."*

Ysgrifennydd Siecr y Trysorlys, Andrew Jones AS, ar gynnig y Gronfa Cyfoeth Siâl, 2017 (Cyfieithiad)

*"Yr unig ateb yw i'r wladwriaeth, o'r diwedd, gyflawni ei chyfrifoldebau i'r rhai sy'n gweithio am ddim ar hyn o bryd, sy'n rhoi eu hunain mewn sefyllfa lle maent yn agored i niwed yn bersonol ac yn ariannol i wneud gwaith pwysig er budd cymdeithas."*

Olorenshaw, 2018 (Cyfieithiad)



Term	Diffiniad Sylfaenol	Cyfeirnod/Cynllun yr Enghraifft
<b>Incwm Sylfaenol cyffredinol/diamod</b>	Mae pob dinesydd/preswlydd yn derbyn swm rheolaidd o arian yn ddiamod. Mae Downes a Lansley yn ystyried hyn ar ffurf incwm wythnosol di-dreth, diamod ac anghyfrannol a delir i bob unigolyn fel hawl, ni waeth faint yr oeddent yn ei ennill neu beth yw eu statws gwaith.	(De Wispelaere a Stirton 2004; Downes a Lansley 2018, tud.1)
<b>Incwm Blynyddol Gwarantedig</b>	Fe'i defnyddir amlaf fel term yng Ngogledd America ar gyfer modelau incwm sylfaenol ac isafswm incwm gwarantedig.	Manitoba, Canada (Forget 2011a) [gweler yr Astudiaeth Achos ar dudalennau 27-28]
<b>Isafswm incwm gwarantedig</b>	System o ddarpariaeth gymdeithasol. Fel rheol, yn seiliedig ar brawf modd neu gyda'r maen prawf lleiaf, sy'n ychwanegu cymhlethdod gweinyddol at y trefniant. O bosibl yn cael ei dalu ar ffurf un cyfandaliad yn flynyddol, yn hytrach na thaliadau rheolaidd. Yn ystyried faint sydd ei angen ar berson/teulu i gael safon byw gweddus, gan ystyried gofynion cyllideb yr aelwyd fel costau tai, trafndiaeth, yr ynni a ddefnyddir a bwyd.	Peilot B-Mincome, Barcelona [gweler yr Astudiaeth Achos ar dudalennau 30-31]
<b>Treth incwm negyddol</b>	System treth incwm flaengar lle mae pobl sy'n ennill llai na throthwy penodol yn cael tâl atodol. Byddai model a gynigiwyd gan Friedman yn golygu bod pobl sy'n ennill llai na'r lwfans di-dreth yn derbyn y gyfran nas defnyddiwyd o'u lwfansau fel tâl ychwanegol gan y llywodraeth - er enghraifft, pe bai'r lwfansau di-dreth yn £10,000, a bod swydd yr unigolyn yn golygu ei fod yn ennill £8000 y flwyddyn, byddai'r llywodraeth yn rhoi credyd o £2000 i'r unigolyn. Dehonglwyd hyn fel math o incwm sylfaenol, ond mae'n rhaid i'r unigolyn fod mewn cyflogaeth - nid yw'n ateb i incwm isel sy'n gysylltiedig â diweithdra.	(Friedman a Friedman 2002)
<b>Trosglwyddiadau Arian Parod</b>	Trosglwyddo arian yn uniongyrchol i bobl gymwys. Weithiau math o gymorth dyngarol, ond mae hefyd yn crynhoi taliadau Nawdd Cymdeithasol.	[Mewn egwyddor] Taliadau Budd-dal Plant
<b>Difidend Cymdeithasol/y Dinesydd</b>	Taliad i boblogaeth yn seiliedig ar incwm sy'n deillio o ecsbloetio adnoddau naturiol. Yn cael ei dalu bob blwyddyn yn hytrach nag yn fisol neu'n wythnosol.	Cronfa Barhaol Alasga [gweler yr Astudiaeth Achos ar dudalennau 26-27]

Tabl 1 - Diffiniadau cryno o'r gwahanol fathau o gynlluniau incwm sylfaenol

## Incwm sylfaenol yn y Deyrnas Unedig - beth yw'r sefyllfa bresennol?

**Ymchwiliwyd i gysyniadau ar gyfer cynlluniau peilot yn y Deyrnas Unedig yn ystod y blynyddoedd diwethaf mewn gwleidyddiaeth genedlaethol a lleol, arolygon o farn y cyhoedd, cyhoeddiadau melinau trafod a phrosiectau ymchwil mewn sefydliadau academaidd.**



### Safbwyntiau gwleidyddol ar lefel y DU

Nid yw'r syniad o incwm sylfaenol yn ddim byd newydd i wleidyddiaeth Prydain - mae erthygl gan Sloman (2018) yn amlinellu hanes y cysyniad sy'n mynd yn ôl dros 100 mlynedd.

Yn ôl Hansard, digwyddodd y ddadl gyntaf am incwm sylfaenol ym 1992 yn Nhŷ'r Arglwyddi, gyda'r nod o archwilio'r cynnydd a wnaed, os o gwbl, yn dilyn argymhellion mewn is-bwyllgor ym 1982 (Hansard 1992). Fodd bynnag, yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ar ôl chwalfa economaidd 2008 a'i ôl-ffeithiau, y mae safbwyntiau gwleidyddol wedi dod i'r amlwg.

Yn Etholiad Cyffredinol 2019 gwelwyd cynigion ar gyfer cynlluniau incwm sylfaenol ym maniffestos rhai o'r prif bleidiau. Nododd maniffesto'r Plaid Lafur awydd i dreialu Incwm Sylfaenol Cyffredinol, ond nid oedd yn benodol ynglŷn â'r manylion, er enghraifft, ble, i bwy, neu ar ba lefel incwm (2019, tud. 60). Rhoddodd Plaid Werdd Cymru a Lloegr fwy o fanylion am sut y byddai'n cyflwyno incwm sylfaenol cyffredinol. Nododd y byddai hwn yn daliad ariannol diamod i bawb ar lefel uwchlaw eu hanghenion cynhaliaeth gyda neb sy'n cael budd-daliadau ar hyn o bryd yn waeth ei fyd o dan y cynllun incwm sylfaenol cyffredinol. Ymhellach, nododd y Plaid Werdd y byddai rhywun sy'n ennill yr isafswm cyflog ac yn gweithio 37.5 awr yr wythnos yn gweld ei incwm yn cynyddu 10 i 15% drwy'r incwm sylfaenol cyffredinol. Byddai ei chynnig yn golygu y byddai holl drigolion y DU yn derbyn yr incwm waeth beth fo'u statws cyflogaeth, a byddai'n disodli'r mwyafrif o fudd-daliadau sy'n gysylltiedig ag incwm er mwyn symleiddio ac ailwampio'r system. Cynigiwyd cyfradd o £89 yr wythnos i oedolyn, gyda chyfraddau ychwanegol ar gyfer grwpiau penodol e.e. byddai pensynwyr yn cael cyfanswm o £178 yr wythnos (Plaid Werdd Cymru a Lloegr 2019, tud. 26). Amcangyfrifodd y Plaid Werdd y byddai ei chynnig yn costio tua £76 biliwn ac y byddai'n cael ei ariannu drwy drethiant (Newyddion y BBC 2019b).

Rhoddir mwy o fanylion am safbwyntiau gwleidyddol Cymru yn nes ymlaen yn yr adran hon (gweler tudalennau 14-15).

### Barn y Cyhoedd

Ym mis Gorffennaf 2018, cynhaliodd Populus, ar ran Cymdeithas Frenhinol y Celfyddydau, arolwg o farn y cyhoedd ar Incwm Sylfaenol Cyffredinol (Populus 2018). Amlygodd Cymdeithas Frenhinol y Celfyddydau chwe chanfyddiad allweddol o'r arolwg hwn (gweler Blwch 1) mewn blogbost dilynol (Painter 2018). Mae Painter yn disgrifio canfyddiadau'r arolwg fel rhai sy'n dangos pryder mawr am effeithiolrwydd y system gyfredol ac ymdeimlad o'r angen am ddewis arall gydag Incwm Sylfaenol yn cael ei ystyried yn bosibilrwydd.

Yn ystod y pandemig COVID-19, ceisiodd academyddion o'r DU a'r UD ddeall cefnogaeth y cyhoedd yn y DU a'r UD i incwm sylfaenol cyffredinol fel rhan o'r ymateb i'r pandemig. Roedd 71% o ymatebwyr i'r arolwg cyntaf (n=802, gyda n=400 o ymatebwyr o'r DU) yn cefnogi incwm

- Mae pobl yn ystyried bod angen y system les i gefnogi'r rhai sydd fwyaf agored i niwed
- Mae'r gefnogaeth i'r cysyniad o incwm sylfaenol yn sylweddol
- Mae incwm sylfaenol yn cael ei ystyried yn 'ddewis amgen ffafriol' i'r system les bresennol
- Mae costau a thargedu incwm sylfaenol yn parhau i fod yn destun pryder
- Cefnogir arbrofion lleol
- Mae system drethu flaengar yn cael ei hystyried fel llwybr posibl i ariannu incwm sylfaenol

(Painter 2018)

Blwch 1 - Chwe chanfyddiad o arolwg barn Cymdeithas Frenhinol y Celfyddydau/Populus ar Incwm Sylfaenol Cyffredinol 2018

weinyddu incwm sylfaenol cyffredinol yn cael ei ystyried yn ffactor fwy cadarnhaol yn ystod cyfnod o argyfwng fel COVID-19, o ystyried y potensial y byddai'r ffaith ei fod ar gael i bawb yn lleihau pryder a straen. (Nettle 2020; Nettle et al. 2020).

sylfaenol cyffredinol yn ystod pandemig o'i gymharu a chyfnodau arferol, gydag 20% yn ei gefnogi'n gyfartal y ddau dro; roedd hyn ar draws pob oedran, rhyw a lliw gwleidyddol. Cynhaliwyd arolwg dilynol o 400 o unigolion (n=200 o ymatebwyr yn y DU), a gyflwynodd fodolau amgen i incwm sylfaenol. Canfu'r ail astudiaeth hon bod dulliau cyffredinol, diamod yn apelio mwy at bobl (48%) o gymharu â chynllun amgen wedi'i dargedu (21%), felly roedd y gefnogaeth i incwm sylfaenol cyffredinol yn llai amlwg nag yn yr astudiaeth gyntaf. Dylid bod yn ofalus wrth ddehongli'r canfyddiadau hyn, gan nad oedd maint y samplau yn gynrychioliadol yn genedlaethol ac felly efallai na fyddant yn adlewyrchu barn bresennol y cyhoedd. Roedd rhai cyfranogwyr yn poeni y byddai'r ffaith ei fod ar gael i bawb yn golygu y byddai arian yn cael ei roi i'r cyfoethog nad oedd ei angen, ac roedd eraill yn poeni am yr effeithiau ar y farchnad lafur. Roedd symlrwydd y broses o

## Y Pandemig COVID-19: Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws a barn y cyhoedd

Mae COVID-19 wedi sbarduno ymyrraeth hanesyddol gan y wladwriaeth yn y farchnad lafur, yn y Deyrnas Unedig ac mewn gwledydd eraill (Kaplan 2020). Yn y DU, mae'r camau digynsail i gadw pobl allan o'r gweithle ac, ar yr un pryd, ceisio cadw eu swyddi, wedi gweld cwmnïau mewn diwydiannau a gwasanaethau nad ydynt yn hanfodol yn gallu rhoi eu gweithwyr ar ffyrlo a hawlio 80% o'u cyflogau, hyd at incwm o £2,500, oddi wrth y llywodraeth. Adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, mae'r cynllun wedi'i ymestyn tan 30 Medi 2021.



A ellir ystyried ymateb economaidd Llywodraeth y DU i COVID-19 yn fath o incwm sylfaenol? Fe wnaeth Lutfey Siddiqi o Ysgol Economeg a Gwyddor Gwleidyddol Llundain gynnwys hyn ac ymatebion rhyngwladol tebyg fel un o naw 'tabŵ polisi' a wrth-drowyd gan COVID-19, gan gyfeirio ato fel 'incwm sylfaenol cyffredinol (o dan enw arall)' a chwestiynu a fydd yn rhaid i fathau o fudd-daliadau sylfaenol diamod barhau ar ôl COVID-19 (Siddiqi 2020).

Yn dechnegol, ni ellir ystyried Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws (Cyllid a Thollau EM 2020b), a'r grantiau cysylltiedig drwy'r Cynllun Cymorth Incwm i'r Hunangyflogedig (Cyllid a Thollau EM 2020a), yn gynlluniau 'cyffredinol', o ystyried eu bod yn bodoli ar gyfer gweithwyr ar ffyrlo a'r hunangyflogedig, nid ar gyfer pawb sy'n gweithio megis y gweithwyr allweddol sydd wedi parhau i weithio yn ystod yr argyfwng. Ar y gorau, byddai'r mesurau polisi hyn cyn Awst 2020, yn

cael eu hystyried yn fath cyfyngedig iawn o incwm sylfaenol, er ei fod yn gyfyngedig o ran amser a bod amodau ynghlwm ag ef.

Lansiwyd ymchwiliad i barodrwydd yr Adran Gwaith a Phensiynau ar gyfer newidiadau ym myd gwaith ar 14 Mai 2020 (Pwyllgor Gwaith a Phensiynau Tŷ'r Cyffredin 2020). Fel rhan o hyn, cynhaliwyd arolwg o dros 18,000 o bobl, gan ymchwilio i'w profiadau o waith a sut y gallai incwm sylfaenol helpu pobl mewn gwaith ac ar faterion cysylltiedig, megis awtomeiddio a'r gweithle sy'n newid. Roedd 80% o'r ymatebwyr yn credu y dylai'r llywodraeth gyflwyno incwm sylfaenol, a dywedodd 19% arall y dylid cyflwyno incwm sylfaenol dros dro (Organise 2020). Mae casgliad o dros 17,000 o straeon a sylwadau wedi'u mapio i ddangos yr hyn y mae pobl yn ei ddweud mewn gwahanol rannau o'r DU am incwm sylfaenol (UBI Lab Network 2020a). Adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, nid oedd ymateb neu adroddiad ar gael gan y Pwyllgor.

## Y Byd Academaidd, Elusennau, Sefydliadau a Melinau Trafod

Mae amryw o sefydliadau yn y DU wedi cyfrannu at y ddatl ar incwm sylfaenol ac mae'r canfyddiadau wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn drwyddo draw. Mae'r adran hon yn rhoi trosolwg cryno o'r amrywiaeth o waith a gynhrychir gan rai o'r sefydliadau hyn.

Mae Cymdeithas Frenhinol y Celfyddydau wedi gwneud cryn dipyn o waith yn ymchwilio i incwm sylfaenol, ac mae'r cyfan yn gefnogol i'r cysyniad ac yn cynnig modelau a rhesymeg dros fwrw ymlaen â'r syniad. Cydnabu ei hadroddiad cyntaf (Painter a Thoung 2015) y byddai incwm sylfaenol yn 'ailstrwythuro'r berthynas rhwng y wladwriaeth a'r unigolyn yn sylweddol', gan alinio incwm sylfaenol fel datrysiad i'r effeithiau technolegol ar swyddi ac amlygodd y gallai incwm sylfaenol alluogi syniadau creadigol, entrepreneuriaidd a bod yn ddatrysiad llawer cryfach na'r wladwriaeth les bresennol o ran lliniaru tlodi ac anghydraddoldeb. Archwiliodd ail adroddiad y syniad o 'Gronfa Cyfle Sylfaenol Cyffredinol' fel llwybr at incwm sylfaenol (Painter et al. 2018) – mae rhagor o fanylion am y model amgen hwn i'w gweld yn nhabl 3 ar dudalen 21. Cyflwynodd y trydydd adroddiad ar incwm sylfaenol gan Gymdeithas Frenhinol y Celfyddydau deipoleg a phhecyn cymorth ar gyfer dylunio a darparu incwm sylfaenol (Young 2018).

Gwerthusodd y felin drafod Compass rinweddau incwm sylfaenol yn y DU, ac ystyriodd ddau fodel gwahanol ar gyfer incwm sylfaenol, gan ddod i'r casgliad y byddai cynllun cwbl gyffredinol yn anodd ei weithredu o dan yr amgylchiadau presennol, yn rhy ddrud ac y byddai gormod o aelwydydd tlotach ar eu colled. Amcangyfrifodd yr awduron y byddai cost flynyddol net amcangyfrifedig cynllun wedi'i addasu, nad yw'n gynllun cyffredinol, tuag £8 biliwn, ond byddai'n codi incwm cyfartalog ar waelod y raddfa, yn lleihau anghydraddoldeb ac yn lleihau lefelau tlodi, yn enwedig tlodi plant. (Reed a Lansley 2016).

Archwiliodd Reform Scotland y potensial ar gyfer Gwarant Incwm Sylfaenol fel dewis amgen i'r system les bresennol (Mackenzie et al. 2016). Canfu ei adroddiad fod y system bresennol yn achosi dryswch, ac yn gyfrifol am 'fagl lles' lle ceir datgymhelliant i bobl ddod o hyd i waith rhag ofn y byddant yn ennill llai na'r hyn y byddent yn ei gael drwy fudd-daliadau. Mae'n argymhell y dylai pawb sydd mewn gwaith neu'n ddi-waith gael incwm sylfaenol gwarantedig a bod unrhyw beth a enillir yn ychwanegol at hynny ac yn cael ei drethu ar gyfradd berthnasol. Mae Sefydliad Joseph Rowntree wedi ymgymryd â gwaith ar gysyniad amgen i incwm sylfaenol, sef y Safon Isafswm Incwm, ac mae rhagor o fanylion ar gael yn Nhabl 3 ar dudalen 21 yr adroddiad hwn.

Mae melinau trafod y farchnad rydd megis Sefydliad Adam Smith a'r Sefydliad Materion Economaidd wedi ystyried incwm sylfaenol a chafwyd barn gymysg, gan gydbwysu'r pryderon ynghylch y wladwriaeth les gyfredol â chost bosibl cynigion cynllun incwm sylfaenol ac anawsterau ei weithredu yn achos y Sefydliad Materion Economaidd (Davies 2019) ac, yn achos Sefydliad Adam Smith, galwad i ddisodli llawer o fudd-daliadau prawf modd gyda threth incwm negyddol, gyda'r nod o warantu incwm sylfaenol gan barhau i gymhell pobl i gael gwaith (Story 2015).

Mae'r Sefydliad Ymchwil Polisi ym Mhrifysgol Caerfaddon wedi arwain ystod o astudiaethau ar incwm sylfaenol yng nghyd-destun y DU, o safbwynt modelu economaidd. Ymhlith yr astudiaethau hyn mae adroddiad ar effeithiau dosbarthiadol incwm sylfaenol a'i effaith ar gymhelliant i weithio (Martinelli 2017a) ac archwiliad o effeithiau ariannol a dosbarthiadol gwahanol fodolau o gynllun incwm sylfaenol (Martinelli 2017b). Mae canfyddiadau'r astudiaethau hyn yn tynnu sylw at heriau'n ymwneud â gweithredu cynllun o'r fath mewn perthynas â datganoli, a chwestiynau ynghylch pwy fyddai'n ariannu ac yn darparu incwm sylfaenol ac ar ba lefelau talu. Mae'r astudiaethau'n nodi y byddai modelau cynllun incwm sylfaenol sy'n disodli'r system fudd-daliadau bresennol yn llawn neu'n rhannol yn anymarferol yn wleidyddol ac yn economaidd, a rhagwelir cyfaddawdu rhwng amcanion economaidd a chymdeithasol.

## Incwm sylfaenol yng Nghymru

*Noder – cafodd yr adran hon o'r adroddiad ei hysgrifennu cyn i Lywodraeth Cymru gyhoeddi cynllun peilot ar incwm sylfaenol ym mis Mai 2021.*

Gwelwyd cynnydd ym momentwm y dadl dros incwm sylfaenol yng Nghymru yn ystod y pum mlynedd diwethaf ar draws y sbectwm gwleidyddol.

Cododd Adam Price, sydd bellach yn arweinydd Plaid Cymru, incwm sylfaenol mewn dadl yn y cyfarfod llawn yn y Senedd yn 2017, gan ofyn a fyddai Llywodraeth Cymru yn cefnogi cynllun peilot ar incwm sylfaenol cyffredinol wedi'i arwain gan awdurdodau lleol. Cadarnhaodd Mark Drakeford, gan ymateb yn rhinwedd ei swydd fel Ysgrifennydd Cyllid, nad oedd unrhyw awdurdod lleol wedi gofyn am gefnogaeth ar gyfer cynllun peilot o'r fath ond y byddai'n monitro cynigion am gynllun peilot yn yr Alban a chydabu 'bod angen ymdrin a chwestiynau cymhwyster' (Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2017, paragraffau 13–20).

Cynigiodd Plaid Cymru hefyd 'incwm sylfaenol ieuencid' i gefnogi pobl ifanc 18-24 oed yng nghynhadledd y blaid yn 2017. Byddai'r model hwn wedi cynnwys swydd warantedig, lleoliad 12 mis â thâl, cymorth ar gyfer addysg bellach neu uwch neu rôl wirfoddol mewn gwasanaeth dinasyddion cenedlaethol (Newyddion y BBC 2017; Newyddion ITV 2017).

Cyhoeddodd AS y Ceidwadwyr David Melding bapur ym mis Hydref 2017, yn dadlau o blaid diwygiadau polisi cyhoeddus, gan gynnwys incwm cyffredinol fel modd o gefnogi syniad diwygio arall, sef gwasanaeth dinasyddion a fyddai'n gweld y cyhoedd yn cael eu galw i weithredu mewn perthynas ag ystod o weithgareddau democrataidd sy'n debyg o ran cysyniad i sut mae gwasanaeth rheithgor yn gweithredu ar hyn o bryd. Mae Melding yn pwysleisio na fyddai'r incwm hwn yn cael ei ddefnyddio i ddisodli cyflogaeth bresennol; yn hytrach, gellid ei ddefnyddio fel cymhelliant ar gyfer pethau fel siambr y dinesydd yn y Senedd, gan graffu ar weithgaredd y llywodraeth (Melding 2017). Er nad yw'r syniad newydd hwn yn cynrychioli cysyniad incwm sylfaenol clasurol, serch hynny, mae'n cymryd peth ysbrydoliaeth o'r syniad o incwm sylfaenol.

Cefnogodd Eluned Morgan AS, yn ei hymgyrch i ddod yn Arweinydd y Blaid Lafur yng Nghymru, y syniad, gan awgrymu peilot ar lefel gymunedol ond gan gydnabod y byddai'n anodd dros ben heb gefnogaeth Llywodraeth y DU (Newyddion y BBC 2018). Roedd y Prif Weinidog Mark Drakeford, gan siarad fel rhan o Wyl Ddigidol y Gelli, hefyd yn cefnogi'r cysyniad yn fras, ond eglurodd nad oedd gan Lywodraeth Cymru ddigon o adnoddau i allu fforddio ei weithredu yng Nghymru oherwydd bod y rhan fwyaf o'r pethau a fyddai'n cyfrannu at incwm sylfaenol yn amlwg yn nwylo Llywodraeth y DU a dywedodd hefyd bod elfennau ohono eisoes yn bodoli - er enghraifft pensiwn yr henoed sy'n fath o incwm sylfaenol





***“Mae Incwm Sylfaenol Cyffredinol yn ddatrysiaid real iawn i helpu pobl allan o dlodi a chynorthwyo'r economi, tra'n lleihau anghydraddoldebau amlwg yn ein cymdeithas sydd wedi dyfnhau yn ystod yr argyfwng.***

***“Dylai pawb gael eu talu digon i ofalu amdany'n nhw eu hunain a'u teuluoedd mewn cyfnod o argyfwng - os gall yr Alban drafod hyn o ddifrif – pam na allwn ni?***

***“Gallai'r arian gynorthwyo llawer o weithwyr a gwirfoddolwyr hanfodol fel y gallant barhau â'u gwaith hollbwysig o gadw'r wlad i fynd – a gallai helpu i leddfu peth o'r straen ar gartrefi sy'n profi anawsterau eithafol.***

(Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru 2020)

cyffredinol i bobl o oedran ymdddeol. Galwodd Prif Weinidog Cymru am arbrofion pellach gan nad oes cynllun incwm sylfaenol cyffredinol cwbl newydd yn eistedd ar silff rhywun yn aros i gael ei weithredu (#CenedlaethauDyfodol - Cymru a'r Byd. 2020).

Cyhoeddodd arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru Jane Dodds erthygl yn cefnogi incwm sylfaenol cyffredinol (Dodds 2019). Mae'r Democratiaid Rhyddfrydol yng Nghaerdydd hefyd wedi cefnogi cynllun peilot arfaethedig o incwm sylfaenol cyffredinol yn y ddinas (Taylor 2020).

Mae melinau trafod a sefydliadau yng Nghymru wedi ychwanegu at y ddadl. Mae Sefydliad Bevan wedi cyfrannu erthyglau cytbwys yn pwysu a mesur manteision ac anfanteision incwm sylfaenol, gan dynnu sylw at yr heriau gweithredu, pa mor gyffredinol fyddai cynllun o'r fath, a pha effaith y gallai ei gael ar dlodi (Mansoor 2017; Winckler 2020). Mae Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2020 Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru wedi galw am incwm sylfaenol cyffredinol, yn enwedig yng ngoleuni'r pandemig COVID-19 – mae'r Comisiynydd, Sophie Howe, yn nodi bod incwm sylfaenol cyffredinol yn 'ddatrysiaid real iawn i helpu pobl allan o dlodi a chynorthwyo'r economi' (Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru 2020).

Cyhoeddodd y Ganolfan Astudiaethau Cymreig adroddiad

ym mis Mawrth 2020, a oedd yn feirniadol ynghylch a ellid sicrhau incwm sylfaenol cyffredinol yng Nghymru. Roedd y papur hwn yn ystyried sut y byddai incwm sylfaenol yng Nghymru yn cael ei ariannu, gan ddyfalu ynghylch mecanweithiau codi trethi posibl o fewn pwerau presennol Cymru, megis codi ardrethi busnes neu dreth gyngor, ac effeithiau posibl y newidiadau hyn. Daw'r awduron i'r casgliad y byddai cynllun incwm sylfaenol yn methu oherwydd pryderon ynghylch o ble y byddai'r cyllid i'w gyflwyno yn dod, yr effeithiau ar fusnes a'r farchnad lafur, a sut y byddai'r cynllun yn cael ei weinyddu (Canolfan Astudiaethau Cymreig 2020).

Cafodd cysyniad ar gyfer peilot yng Nghaerdydd ei wireddu ym mis Mehefin 2020. Er ei fod ar gam cynnar iawn o ran ei ddatblygiad, a bod cynnig ymarferol i fod i gael ei gyhoeddi'n fuan, yn ôl y manylion a ryddhawyd hyd yma byddai 5,000 o bobl yn cael eu dewis ar hap i dderbyn £100 yr wythnos am ddwy flynedd, gyda chanlyniadau'r fenter yn cael eu hasesu i ganfod yr effeithiau posibl, pe bai'r cynllun yn cael ei ehangu i'r boblogaeth gyfan (Seabrook 2020).

## Beirniadaeth o incwm sylfaenol

Mae'r cysyniad o incwm sylfaenol wedi cael ei feirniadu, gyda llawer o feirniaid yn ymateb i ddadleuon y cefnogwyr gyda heriau ideolegol, economaidd, iechyd a llesiant i'r cysyniad. I grynhoi rhai o'r prif ddadleuon yn erbyn incwm sylfaenol, mae Tabl 2 yn cyflwyno'r feirniadaeth yn ôl thema, gyda dolenni i ddeunydd darllen pellach.

Thema	Crynodeb Byr	Ffynhonnell
<b>Cwestiynu'r effeithiau ar leihau tlodi</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae'r OECD yn dadlau, os bydd yr incwm yn cael ei bennu ar lefel sy'n is na'r trothwyon tlodi, y byddai mwy o bobl yn wynebu tlodi drwy effeithiau dosbarthiadol - ond roedd ei fodel yn seiliedig ar lefelau presennol taliadau budd-daliadau a'r rhagdybiaeth y byddai'r holl fudd-daliadau presennol yn cael eu diddymu.</li> <li>Mae erthygl gan Sefydliad Joseph Rowntree wedi ystyried nad dyma'r ateb i dlodi, a gallai rhai modelau hyd yn oed waethygu tlodi ymysg plant, oedolion o oedran gweithio a phensiynwyr o'i gymharu â'r system bresennol.</li> <li>Cred y Ganolfan Cyfiawnder Cymdeithasol mai gwaith yw'r llwybr gorau allan o dlodi, ac na fyddai unrhyw incwm sylfaenol yn fwy hael na Chredyd Cynhwysol i aelwydydd difreintiedig.</li> <li>Daw papur Ysgol Economeg Llundain i'r casgliad os mai'r nod yw lleihau, neu'n well byth, dileu tlodi, bod mynd ar drywydd mecanwaith Incwm y Dinesydd [y derminoleg o'i dewis ar gyfer incwm sylfaenol] yn mynd i'r cyfeiriad anghywir.</li> </ul>	<p>(OECD 2017) (Perkiö 2017)</p> <p>(Goulden 2018)</p> <p>(Y Ganolfan Cyfiawnder Cymdeithasol 2018)</p> <p>(Piachaud 2016)</p>
<b>Cynyddu trethiant</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Fel ymateb i gynnig Compass yn 2016 i gyllido incwm sylfaenol drwy gyflwyno cynnydd o 5c mewn treth incwm i bawb, dileu lwfans treth personol ac ymestyn cyfraniadau Yswiriant Gwladol, mae Gough o'r farn y byddai'r model hwn yn cyflawni gwelliannau mewn tlodi plant ond fawr ddim arall, a'i fod o'r herwydd yn injan dreth bwerus yn tynnu cert bach.</li> </ul>	(Gough 2018)
<b>Cynyddu diweithdra</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae'r Ganolfan Cyfiawnder Cymdeithasol o'r farn bod incwm sylfaenol yn ddatgymhelliant mawr i bobl ddod o hyd i waith.</li> <li>Mae Hassel o'r farn bod incwm sylfaenol yn dileu'r pwysau i ddod o hyd i waith.</li> <li>Mae'r Ganolfan Astudiaethau Cymreig yn nodi pryderon pe bai incwm sylfaenol yn cael ei weithredu, y byddai gan bobl lai o gymhelliant i weithio'n rhan-amser, gan dynnu sylw at bryderon y gallai hyn greu prinder yn nifer y gweithwyr rhan-amser yn y sector gofal iechyd.</li> </ul>	<p>(Y Ganolfan Cyfiawnder Cymdeithasol 2018)</p> <p>(Hassel 2018)</p> <p>(Canolfan Astudiaethau Cymreig 2020)</p>
<b>Nid yw incwm sylfaenol yn mynd yn ddigon pell</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cred Whitfield na fyddai incwm sylfaenol yn gwella dosbarthiad a pherchnogaeth cyfoeth, a bod democrateiddio cyfoeth yn bwysicach na dim ond creu amodau ar gyfer cynyddu defnydd o adnoddau.</li> <li>Nid yw Mestrum yn credu bod incwm sylfaenol yn ateb blaengar, gan nodi pryderon na fyddai incwm sylfaenol o reidrwydd yn ddigon uchel i bobl gael safon byw gweddus, gan ei wneud yn ddim mwy na chymhorthdal cyflog na fyddai'n gwneud fawr ddim i newid anghydraddoldeb.</li> </ul>	<p>(Whitfield 2018)</p> <p>(Mestrum 2018)</p>
<b>Ni ddylai fod yn ddiamod</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae Hassel yn cwestiynu pam y byddai'n cael ei dalu i'r rhai nad oes ei angen arnynt - dywed fod y dosbarth canol, a fyddai'n ariannu'r incwm sylfaenol ond na fyddent yn elwa ohono'n sylweddol, yn annhebygol o ganfod cyfiawnder cymdeithasol yn yr ailddosbarthiad diamod hwn.</li> </ul>	(Hassel 2018)

Tabl 2 - Beirniadaeth o incwm sylfaenol

## Dewisiadau amgen i incwm sylfaenol

Mae ysgolheigion wedi cynnig ystod o gysyniadau polisi cyhoeddus 'cyffredinol'; damcaniaethol yw'r rhain i raddau helaeth heb fawr ddim ohonynt wedi cael eu gweithredu yn y 'byd go iawn' hyd yma. Gan fod y rhain yn wahanol i incwm sylfaenol, nid yw'r adroddiad hwn yn manylu ar y cynigion hyn; fodd bynnag, mae Tabl 3 yn rhoi trosolwg o bob cysyniad gydag awgrymiadau am ddeunydd darllen pellach.

Cysyniad	Crynodeb	Deunydd Darllen Pellach
<b>Asedau Sylfaenol Cyffredinol</b>	Wedi'u disgrifio fel set sylfaenol o adnoddau y dylem ymdrechu i roi mynediad i bawb atynt, mae cynnig Sefydliad y Dyfodol yn ystyried gofod, adnoddau naturiol, seilwaith, cyfalaf, data, 'gwybodaeth', cymunedau a phŵer fel asedau a allai gael eu cyflwyno ar ffurf sylfaenol i bob dinesydd (Sefydliad y Dyfodol 2019).	(Ward 2017; Schiller 2018; Sefydliad y Dyfodol 2019)
<b>Cronfa Cyfleoedd Sylfaenol Cyffredinol</b>	Daeth hyn i'r amlwg mewn cynnig gan Gymdeithas Frenhinol y Celfyddydau, a'r cysyniad yw rhoi 'difidend cyfleoedd' o £5,000 i bob dinesydd o dan 55 oed i bara hyd at ddwy flynedd, y gall yr unigolyn ddewis pryd i'w ddefnyddio o fewn degawd. Byddai plant dibynnol hefyd yn gymwys i gael taliad yn y flwyddyn yr oedd rhiant neu'r ddau riant yn derbyn eu taliadau nhw. Y rhesymeg dros y cynnig hwn yw galluogi dinasyddion i addasu i newidiadau yn eu bywydau, p'un a ydynt yn cael eu hysgogi gan newid economaidd neu amgylchiadau personol (Painter et al. 2018, tud. 3).	(Painter et al. 2018)
<b>Gwasanaethau Sylfaenol Cyffredinol</b>	Mae'r cysyniad o Wasanaethau Sylfaenol Cyffredinol yn cynnig dewis arall yn lle incwm sylfaenol gan y byddai'n darparu ar gyfer anghenion llety, bwyd, gofal iechyd ac addysg pobl yn gyffredinol, yn hytrach na rhoi incwm unigol iddynt. O'i gymharu ag incwm sylfaenol, byddai'r model hwn yn dileu'r rhyddid unigol i wario fel y mae'r unigolyn yn dymuno. Yn ei le, byddai'r dull Gwasanaethau Sylfaenol Cyffredinol yn darparu llawer o'r pethau sylfaenol sy'n ofynnol ar gyfer byw o ddydd i ddydd.	(Journalista 2017; Rhwydwaith Ffyniant Cymdeithasol 2017; Coote et al. 2019)
<b>Grantiau Plant Cyffredinol</b>	Yn cael ei ystyried yn ateb i dlodi plant mewn gwledydd sy'n datblygu (ODI 2019), mae'r cysyniad hwn hefyd wedi'i ystyried ar gyfer Slofenia a Gwlad Belg i ddisodli'r budd-daliadau plant presennol. Fel yr amlinellwyd mewn papur drafft (Korošec 2019) dangosodd gwaith modelu ariannol, drwy wneud dim newidiadau cyllidebol cyffredinol ond disodli 27 cynllun gydag un grant cyffredinol o €200 y mis (€400 y mis i deuluoedd un rhiant), bod cyfraddau tlodi plant yn gostwng yn y degraddau incwm cyntaf a'r ail.	(Korošec 2019; ODI 2019)
<b>Safon Isafswm Incwm</b>	Mae hyn yn ystyried meincnod o ran 'isafswm incwm' er mwyn fforddio safon byw gweddus. Mae'n seiliedig ar ymgynghori â'r cyhoedd i ddod i gonsensws ynghylch beth yw anghenion materol cymdeithas, megis cost dillad, lloches, bwyd, ac mae'n caniatáu rhywfaint o amrywiad yn ôl statws yr aelwyd (e.e. gyda phlant neu hebddynt)	(Hirsch 2010; Davis et al. 2016; Davis et al. 2018; Hirsch 2019)

Tabl 3 - Trosolwg o gynigion polisi 'cyffredinol' amgen

## Cynigion ar gyfer cynlluniau peilot ac astudiaethau achos rhyngwladol - Modelau a dulliau gweithredu

**Mae'r rhan hon yn rhoi crynodeb o rai modelau arfaethedig ar gyfer astudiaethau peilot yn y DU, ynghyd ag astudiaethau achos rhyngwladol o weithredu cynlluniau incwm sylfaenol. Dewiswyd y rhain i ddangos y gwahanol arddulliau a dulliau a ddefnyddiwyd i ddarparu incwm sylfaenol i ddinasyddion mewn gwahanol ddinasoedd a rhanbarthau; dewiswyd yr enghreifftiau o astudiaethau achos o economïau datblygedig er mwyn sicrhau bod modd trosglwyddo rhai elfennau i'r cyd-destun Cymreig. Cyflwynir trosolwg byr o bob cynllun yma; gellir gweld canlyniadau'r cynlluniau peilot a roddwyd ar waith neu a weithredwyd yn Adran 3.**

### Cynigion ar gyfer cynlluniau peilot

Yn ystod y degawd diwethaf, mae nifer o gynigion ar gyfer cynlluniau peilot wedi dod i'r amlwg yn y DU, fodd bynnag, adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, nid oes yr un wedi cael ei gychwyn. Mae rhwydwaith ymbarél o ddinasoedd a rhanbarthau sy'n ystyried cynlluniau incwm sylfaenol ar gyfer eu hardal wedi'i sefydlu i dynnu sylw at rai o'r cynigion allweddol ledled y DU - UBI Lab Network (UBI Lab Network 2020b). Hyd yn hyn, gwelwyd cynigion o Sheffield, Lerpwl, Leeds, Rhanbarth Gogledd-ddwyrain Lloegr, Kirklees, Chesterfield, Caerefrog, Gogledd Iwerddon, Norfolk, Birmingham, a Hull. Mae Jakarta a Bucharest wedi ymuno fel Labordai Incwm Sylfaenol Cyffredinol (UBI Lab Network 2020b). Er mwyn bod yn gryno, mae'r rhan hon o'r papur hwn yn tynnu sylw at gynigion ar gyfer cynlluniau peilot yn Sheffield a'r Alban.

### Cynllun Peilot Arfaethedig - Sheffield

Cynllun Incwm Sylfaenol Cyffredinol Sheffield yw un o'r cysyniadau Labordy Incwm Sylfaenol Cyffredinol mwy sefydledig yn y DU, ac mae wedi arwain at bapur gwaith manwl, gyda chynnig terfynol wedi'i gyhoeddi ym mis Mawrth 2019 (Labordy Incwm Sylfaenol Cyffredinol Sheffield 2018; Bryan a Leman 2019). Mae'r awduron yn amlinellu sut y gellid cynllunio incwm sylfaenol cyffredinol a'r hyn y byddai'n helpu i'w gyflawni. Cynigir tri model ar gyfer cynllun peilot yn y papur. Yn y cyntaf, amlinellir cynllun peilot sy'n canolbwyntio ar gael gwared ar brawf modd a chosbau i bobl sy'n hawlio budd-daliadau anabledd, a allai gostio oddeutu £18 miliwn i'w rhedeg. Byddai'r ail fodel, sef rhoi £130 y mis i bob oedolyn, heb unrhyw newidiadau eraill i'r system dreth a budd-daliadau, yn costio tua £23 miliwn. Byddai'r trydydd model yn golygu gwneud newidiadau sylweddol i'r system dreth a budd-daliadau, gyda thaliad safonol o £6,000 y flwyddyn i ystod o breswylwyr ac arian ychwanegol ar gyfer y rhai sydd wedi ymddeol, yr anabl a'r rhai â phlant. Mae'r awduron yn rhagweld y byddai canlyniadau'n cael eu mesur mewn pedwar prif faes:

- Gweithgaredd: megis effeithiau ar waith, gwirfoddoli, ymddygiad troseddol a'r nifer sy'n manteisio ar addysg
- Llesiant: megis canlyniadau ac ymddygiad iechyd corfforol a meddyliol, ymdeimlad o ymreolaeth, sicrwydd ariannol
- Perthnasoedd: megis effaith ar berthnasoedd personol ac aelwydydd, ymgysylltu â'r gymuned ac ymdeimlad o berthyn
- Lle: megis ansawdd tai a rhyngweithio â'r amgylchedd lleol.

Ym mis Mehefin 2019, cefnogodd Cyngor Dinas Sheffield gynnig i dreialu incwm sylfaenol, ond gan gydnabod y byddai angen cyllid allanol arno (Canolfan Diwygio Lles 2019; Gold 2019), gyda

chynllun Incwm Sylfaenol Cyffredinol Sheffield yn ceisio ennyn cefnogaeth i'r cysyniad o beilot ymhlith sefydliadau'r GIG a sefydliadau academiaidd yn y rhanbarth.

### Cynlluniau Peilot Arfaethedig - Yr Alban

Mae enghraifft yr Alban yn darparu cysyniad datblygedig iawn sy'n cynnwys camau gweithredu lleol a chyfranogiad uniongyrchol y llywodraeth genedlaethol. Yn 2017, cyhoeddodd Prif Weinidog yr Alban Nicola Sturgeon y byddai cynlluniau peilot yn Glasgow, Caeredin, Fife a Gogledd Ayrshire yn cael eu hariannu gan Lywodraeth yr Alban (Bott 2017; Farrell 2017). Darparwyd cyllid o £250,000 ar gyfer astudiaethau dichonoldeb ynghylch incwm sylfaenol yn y pedair ardal yn ddiweddarach yn 2017, gydag Ysgrifennydd y Cabinet a oedd yn gyfrifol yn nodi y bydd angen i'r cynlluniau lleol fod yn gwbl ymwybodol o'r sail deddfwriaethol ac ymarferol ar gyfer gweithredu cynllun peilot gan gynnwys ystyried pwerau a gadwyd yn ôl a phwerau datganoledig a chymhlethdodau gweinyddol. Ymhellach, nododd Ysgrifennydd y Cabinet ei bwriad i ymgysylltu â'r Adran Gwaith a Phensiynau ac o bosibl Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi (CThEM) ynghylch y cynlluniau peilot (Constance 2017). Sefydlwyd Grŵp Trawsbleidiol yn Senedd yr Alban ar Incwm Sylfaenol yn 2018, i archwilio'r opsiynau ar gyfer incwm sylfaenol (Senedd yr Alban 2020).

Mae adroddiad dichonoldeb dros dro ac adroddiad drafft terfynol (Grŵp Llywio Astudiaeth Dichonoldeb Incwm Sylfaenol y Dinesydd 2019; Grŵp Llywio Astudiaeth Dichonoldeb Incwm Sylfaenol y Dinesydd 2020) yn archwilio dichonoldeb gwleidyddol, ariannol a moesegol treialu incwm sylfaenol dinesydd yn yr Alban, ynghyd â sut y gellid gwerthuso'r cynllun peilot. Mae Grŵp Llywio'r Astudiaeth, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r pedwar awdurdod lleol arfaethedig fyddai'n rhan o'r cynllun peilot, NHS Health Scotland, y Gwasanaeth Gwella a Llywodraeth yr Alban, wedi nodi model a ffefrir ar gyfer y cynlluniau peilot i barhau dros gyfnod o dair blynedd wedi'i ragflaenu gan gyfnod paratoi o flwyddyn. (Basic Income Scotland 2020). Byddai llawer o ganfyddiadau'r astudiaeth ddichonoldeb a'r ystyriaethau yr un mor berthnasol yng Nghymru.

Yn ogystal â'r astudiaethau dichonoldeb, ym mis Mehefin 2020, cyhoeddodd Prifysgol Strathclyde ei model economaidd o 'Incwm Sylfaenol y Dinesydd' yn yr Alban. Mae'r adroddiad yn amlinellu dau fodel ar gyfer y cynllun: incwm sylfaenol lefel is sy'n efelychu lwfansau nawdd cymdeithasol presennol yn bennaf; a chysyniad lefel uwch, sy'n darparu ychydig mwy o incwm na'r rhai sy'n derbyn budd-daliadau, yn seiliedig ar Safon Isafswm Incwm Sefydliad Joseph Rowntree (Gweler Tabl 3 ar dudalen 21 am wybodaeth bellach). Canfuwyd y byddai'r cysyniad incwm sylfaenol lefel is yn costio tua £27 biliwn y flwyddyn (gros) yn yr Alban, gyda'r lefel uwch yn costio oddeutu £58 biliwn. Dywed yr ymchwilyr, ar gyfer yr enghraifft lefel is, pe bai elfennau safonol budd-daliadau prawf modd, Lwfans Gofalwyr a Budd-dal Plant yn cael eu diddymu, ynghyd â lwfansau personol ar gyfer treth incwm a lleihau taliadau pensiwn y wladwriaeth yn ôl swm yr incwm sylfaenol a ddarperir, byddai hynny'n arbed tuag £19 biliwn, gan adael i'r llywodraeth ddod o hyd i oddeutu £8 biliwn y flwyddyn drwy ddulliau eraill (Sefydliad Fraser of Allander 2020). Canfuwyd y byddai 55% o'r derbynyddion yn elwa'n ariannol o'r cynllun lefel is, gyda nifer y bobl mewn tlodi yn gostwng 280,000 a phlant mewn tlodi yn gostwng 90,000 - roedd y gostyngiadau'n fwy ar gyfer y cynllun modelu lefel uwch. (Prifysgol Stathclyde, Sefydliad Fraser of Allander 2020; Prifysgol Strathclyde, Sefydliad Fraser of Allander 2020)

## Astudiaethau Achos

**Mae ystod o enghreifftiau rhyngwladol lle mae incwm sylfaenol naill ai wedi cael ei dreialu, wrthi'n cael ei dreialu ar hyn o bryd, neu wedi bod yn gweithredu am gyfnod sylweddol o amser. Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn canolbwyntio ar rai o'r enghreifftiau o wledydd incwm uchel.**

### Astudiaeth Achos: Y Ffindir

Cipolwg	
<b>Nod</b>	Archwilio effeithiau'r farchnad lafur; ystyried incwm sylfaenol fel modd o ddiwygio nawdd cymdeithasol
<b>Swm</b>	€560 y mis, heb brawf modd
<b>Wedi'i dargedu neu gyffredinol?</b>	Wedi'i dargedu - 2,000 o bobl ddi-waith 25-58 oed sy'n byw yn y Ffindir
<b>Amserlen</b>	2017-2018

*Tabl 4 Cipolwg ar arbrawf y Ffindir. Ffynonellau: Y Weinyddiaeth Materion Cymdeithasol ac Iechyd [Y Ffindir] 2016; Kela 2020*

Mae'r ddadl incwm sylfaenol yn y Ffindir wedi bod yn rhan o'r byd gwleidyddol ers yr 1980au, gyda chynrychiolwyr 12 o bleidiau gwleidyddol gwahanol yn trafod y cysyniad neu syniadau tebyg dros bedwar degawd (Perkiö 2020). Archwiliodd ymchwilwyr o Kela, asiantaeth yswiriant cymdeithasol llywodraeth y Ffindir, incwm sylfaenol yn 2015, a dilynwyd hyn gan gynnig deddfwriaethol a ddaeth i'r amlwg yn 2016 a sbardunodd y peilot cenedlaethol, statudol ac ar hap cyntaf o incwm sylfaenol yn y byd. (Y Weinyddiaeth Materion Cymdeithasol ac Iechyd [Y Ffindir] 2016; Kela 2020c).

***“Roedd ychydig dros hanner yr ymatebwyr (54.8%) yn y grŵp prawf ac ychydig yn llai na hanner yn y grŵp rheoli (46.2%) yn ystyried bod cyflwr eu hiechyd yn dda iawn neu'n dda”***

(Kangas et al. 2019) (Cyfieithiad)

Yn enghraifft y Ffindir, y nod oedd diwygio polisi cymdeithasol presennol gyda'r bwriad o ddod â datgymhellion i weithio i ben a lleihau biwrocratiaeth. Comisiynwyd consortiwm yn cynnwys tair prifysgol, Cronfa Arloesi'r Ffindir, Ffederasiwn Mentrau'r Ffindir ac eraill, dan arweiniad Kela, i gynnal yr astudiaeth ragarweiniol. Rhoddwyd cyllid o €20 miliwn ar gyfer yr astudiaeth, dros ddwy flynedd, gan Lywodraeth y Ffindir. Roedd pedwar model i'w harchwilio a'u datblygu, megis incwm sylfaenol llawn, lle y byddai'r lefel yn ddigon uchel i ddisodli'r budd-daliadau presennol sy'n seiliedig ar yswiriant (Kangas 2015). Canfu adolygiad o'r modelau y byddai incwm sylfaenol diamod yn eithaf drud, a disgwyliwyd i'r model incwm sylfaenol rhannol a ddewiswyd gydgrynhoi'r mwyafrif o fudd-daliadau presennol, ac eithrio'r budd-daliadau sy'n gysylltiedig ag enillion (Kela 2016b; Kela 2016a).

Effeithiwyd ar ganfyddiadau terfynol yr arbrawf hwn gan newidiadau ar yr un pryd i feini prawf cymhwysra ar gyfer budd-daliadau diweithdra rhwng dwy flynedd yr astudiaeth, sy'n cyfyngu ar y dehongli, ond gan nad oedd cymryd rhan yn yr astudiaeth yn wirfoddol, gellir dod i gasgliadau dibynadwy. O ran y flwyddyn gyntaf, roedd yr effeithiau ar gyflogaeth yn fach, gyda chynnydd bach yn nifer y diwrnodau yr oedd y rhai a oedd yn derbyn yr incwm sylfaenol mewn cyflogaeth, ond roedd rhai hefyd yn teimlo mwy o bwysau i ddod o hyd i swydd. Roedd y cyfranogwyr hefyd

yn teimlo bod ganddynt fwy o ymreolaeth dros eu bywydau. Gwelwyd cynnydd bach yn y rhai a nododd eu bod yn byw'n gyfforddus neu'n ymdopi mewn perthynas ag incwm eu cartref (Kela 2020c; Kela 2020a).

### Astudiaeth Achos: Cronfa Barhaol Alasga

Cipolwg	
<b>Nod</b>	Dosbarthu 25% o'r holl refeniw o'r diwydiant olew yn Alasga i drigolion lleol
<b>Swm</b>	Yn amrywio o \$331 i \$2,072 y flwyddyn, yn dibynnu ar sut mae'r buddsoddiad yn perfformio
<b>Wedi'i dargedu neu gyffredinol?</b>	Cyffredinol - yn cael ei dalu i holl drigolion Alasga yn y flwyddyn cyn hawliad difidend, yn ddiamod. Cymhwysodd tua 637,000 o ymgeiswyr am y taliad yn 2015.
<b>Amserlen</b>	Ers 1976, gyda thaliadau difidend cyntaf o 1982 ymlaen

Tabl 5 - Cipolwg ar Gronfa Barhaol Alasga. Ffynonellau: (Goldsmith 2010; van Parijs a Vanderborght 2017, tud. 93–95; Marinescu [dim dyddiad])

**“Roedd cysyniad y Difidend yn seiliedig ar Gyfansoddiad Alasga, sy'n nodi bod adnoddau naturiol Alasga yn eiddo, nid i'r wladwriaeth, ond i bobl Alasga eu hunain”.**

Llywodraethwr Jay Hammond, o'i gofiant 'Tales of Alaska's Bush Rat Governor', fel y dyfynnwyd yn van Parijs a Vanderborght (2017) (Cyfieithiad)

Mae Cronfa Barhaol Alasga yn enghraifft o gronfa cyfoeth sofran, lle mae'r ardal yn creu ac yn datblygu cronfa wrth gefn o arian o enillion ymyrraeth, sydd wedyn yn cael ei ddsbarthu ymhlith trigolion lleol. Yn achos Alasga, mae'r elw yn dod o olew. Rhwng 1959 a 2009, cynhyrchwyd oddeutu 16 biliwn o gasgenni o olew, gwerth \$500 biliwn, gyda'r wladwriaeth yn cadw oddeutu \$150 biliwn o gyfanswm y gwerth; mae hyn wedi ariannu gwasanaethau cyhoeddus ac wedi creu cronfa o gynilion, sef Cronfa Barhaol Alasga. (Goldsmith 2010, tud.1–2)

Dechreuodd y gronfa ym 1976, a'i phrif bwrpas oedd buddsoddi 25% o refeniw'r diwydiant olew mewn cronfa, a fyddai wedyn yn cael ei thalu fel difidend i bob un o ddinasyddion Alasga o hynny ymlaen. Roedd y Llywodraethwr ar y pryd, Jay Hammond, eisiau gweld y cyfoeth yn cael ei gynhyrchu er budd trigolion Alasga yn ogystal â chenedlaethau'r dyfodol. Gyda sicrwydd fwy neu lai y byddai'r refeniw olew yn parhau i'r genhedlaeth nesaf a thu hwnt, gwarantodd llywodraeth Alasga fath o incwm o'r gronfa i breswylwyr y dyfodol (van Parijs a Vanderborght 2017, tud.93). Dechreuodd y taliadau blynyddol hyn ym 1982 ac maent yn parhau hyd heddiw.

Mae gweithrediad hirdymor y cynllun hwn wedi caniatáu i ni arsylwi canfyddiadau sylweddol. Canfu Jones a Marinescu (2020) nad yw'r difidend wedi cael unrhyw effaith negyddol ar gyflogaeth, a bod gwaith rhan-amser wedi cynyddu rhywfaint. Ymhellach, gwelsant fod y difidend arian parod wedi helpu i gefnogi'r economi leol, a nodwyd cynnydd mewn gwariant yn y mis y cafodd pobl eu taliad difidend (Marinescu 2017).

## Astudiaeth Achos: Dauphin, Manitoba

<b>Cipolwg</b>	
<b>Nod</b>	Y prif nod oedd asesu effeithiau'r farchnad lafur; casglwyd gwybodaeth am effeithiau eraill fel rhan o'r ymchwil
<b>Swm</b>	Yn amrywio yn ôl statws cartref, e.e. byddai teulu heb incwm yn derbyn 60% o dorbwynt incwm isel Statistics Canada
<b>Wedi'i dargedu neu gyffredinol?</b>	Cyffredinol yn nhref Dauphin, i'r rhai a oedd am gymryd rhan yn yr treial
<b>Amserlen</b>	1974-1979

Tabl 6 - Cipolwg ar arbrawf Dauphin. Ffynonellau: Forget 2011; Forget 2018

***"[Ym Manitoba] gwelsom ostyngiad sylweddol yn y niferoedd a dderbyniwyd i'r ysbyty, yn enwedig ar gyfer derbyniadau'n ymwneud ag iechyd meddwl a damweiniau ac anafiadau, mewn perthynas â'r grŵp cymharu cyfatebol. Gostyngodd cysylltiadau â meddygon ar gyfer diagnosis iechyd meddwl mewn perthynas â'r grŵp cymharu."***

Forget 2011b

Cynhaliwyd yr enghraifft hon o gynllun Incwm Blynyddol Gwarantedig yn nhalaith Manitoba, Canada rhwng 1974-1979, lle roedd gan un dref wledig benodol, Dauphin, swm sylweddol o weithwyr amaethyddol hunangyflogedig, gan gynnig yr incwm i'w thrigolion yn gyffredinol. Daeth y treial i ben heb unrhyw werthusiad na dadansoddiad ffurfiol, ond cadwyd y gwaith papur, gan beri i'r ymchwilydd Evelyn Forget i gynnal dadansoddiad ôl-weithredol o'i ganfyddiadau (Forget 2011b). Cafwyd canfyddiadau arwyddocaol yn ymwneud ag iechyd, a drafodir yn Adran 3.

Sefydlwyd y cynllun yn dilyn cynnig a gyflwynwyd gan Manitoba i'r Adran Iechyd a Lles ffederal. Yn y cynnig, rhagwelodd Manitoba gyllideb o \$17 miliwn, y byddai'r llywodraeth ffederal yn talu am 75% ohoni,

ac roedd yn disgwyl cofrestru dros 1,000 o deuluoedd i gymryd rhan yn y prosiect. Cymuned yn Winnipeg fyddai un safle, gyda theuluoedd yn cael eu dewis ar hap i gymryd rhan, ac yn Dauphin byddai pob teulu'n cael ei wahodd i gymryd rhan. Rhagwelwyd y byddai pedwar maes ffocws allweddol ar gyfer yr ymchwil: effeithiau economaidd a'r effaith ar gymhellion gwaith; effeithiau cymdeithasegol megis cydlyniant cymunedol; effeithiau gweinyddol; ac allbynnau ystadegol.

Roedd yr heriau'n gysylltiedig â sefydlu'r cynllun yn amlwg o'r cychwyn cyntaf. Roedd y rhain yn cynnwys dadl ynghylch pwy oedd yn gyfrifol am wneud y gwaith ymchwil a'r gwaith gweinyddol, gwanhau ffocws gwreiddiol yr astudiaeth o'r nod o archwilio effeithiau gwaith a chanolbwyntio mwy ar faterion gweinyddol, a rhoi cyfarwyddyd i'r ymchwilydwr 'archifo' eu canfyddiadau yn hytrach na'u dadansoddi. Dim ond am ddwy flynedd o'r prosiect pedair blynedd y casglwyd data. Hyd at 2011, dim ond dadansoddiad o effeithiau'r farchnad lafur ymhlith sampl Winnipeg a gyhoeddwyd (Hum a Simpson 1991; Forget 2011b). Ystyriwyd bod newid mewn llywodraeth ar lefel daleithiol, ac wedi hynny colli cefnogaeth wleidyddol i'r prosiect, hefyd yn her i'r arbrawf (Forget 2018).



## Astudiaeth Achos: Ontario, Canada

<b>Cipolwg</b>	
<b>Nod</b>	Y prif nod oedd lleihau tlodi; effeithiau eilaidd ychwanegol gan gynnwys effeithiau ar iechyd, cyfranogiad yn y farchnad lafur ac effeithiau cymunedol.
<b>Swm</b>	Hyd at CA\$16,989 y flwyddyn i bobl sengl CA\$24,027 i gyplau. Derbyniodd pobl ag anabledau CA\$6,000 ychwanegol.
<b>Wedi'i dargedu neu gyffredinol?</b>	Wedi'i dargedu – nifer cyfyngedig o bobl 18-64 oed.
<b>Amserlen</b>	Wedi'i gynllunio ar gyfer 2017-2020, ond daeth i ben ym mis Awst 2018, gyda'r taliadau terfynol i'r derbynyddion yn cael eu gwneud ym mis Mawrth 2019.

Tabl 7 - Cipolwg ar dreial Ontario. Ffynonellau: Llywodraeth Ontario 2017; Forget 2018.

**“Llwyddais i chwilio am brentisiaeth dda heb setlo am rywbeth llai proffesiynol.”**

Ymatebydd i arolwg Ontario, o Rwydwaith Incwm Sylfaenol Canada, 2019

Roedd arbrawf Ontario yn seiliedig ar gynllun Manitoba. Gofynnwyd i Hugh Segal, academydd a chyn-seneddwr o Canada, gynnig syniadau ar gyfer dyluniad y cynllun peilot, ac roedd yn awyddus y dylai Ontario dreialu incwm sylfaenol drwy strwythur a oedd yn profi'r effeithiau ar ffactorau megis cyllideb y dalaith, effeithiau'r farchnad lafur, diogelwch bwyd, tai, a chanlyniadau iechyd ac addysg (Segal 2016). Penodwyd dau grŵp allweddol i

gynghori a goruchwylio'r peilot: Cyngor Cynghori, i gynghori a goruchwylio swyddogaethau'r peilot o ddydd i ddydd, a; Grŵp Gweithrediadau Ymchwil, a oedd yn gyfrifoldeb am redeg y cynllun peilot.

Yn yr arbrawf hwn, dewiswyd 1,000 o dderbynyddion yn ardaloedd Hamilton a Thunder Bay, ochr yn ochr â 1,000 o deuluoedd mewn grŵp rheoli nad oeddent yn derbyn taliadau, a 2,000 o dderbynyddion yn ardal Lindsay. Roedd y rhai a oedd yn gyfrifol am yr arbrawf eisiau archwilio'r effeithiau ar dlodi yn bennaf, ond hefyd canfod a allai incwm sylfaenol leihau cost darpariaeth gofal iechyd. Roedd hyn yn enghraifft o fodel credyd treth ad-daladwy (Llywodraeth Ontario 2017; Forget 2018).

**“Roeddwn i'n gallu gwneud rhai atgyweiriadau angenrheidiol i'r cartref.”**

Ymatebydd i arolwg Ontario, o Rwydwaith Incwm Sylfaenol Canada, 2019

Dylanwadodd ymgysylltiad rhagweithiol y gweithlu iechyd ar ddatblygiad y cynllun, gyda Chymdeithas Asiantaethau Iechyd Cyhoeddus Lleol a Chymdeithas Iechyd Cyhoeddus Ontario wedi ysgrifennu at y gweinidogion a oedd yn gyfrifol am ddatblygiad y cynllun peilot incwm sylfaenol

**Roedd gan 79% o dderbynyddion incwm sylfaenol Ontario ychydig yn fwy neu lawer mwy o gymhelliant i ddod o hyd i swydd sy'n talu'n well tra roeddent yn derbyn incwm sylfaenol**

Ferdosi et al. 2020

i amlinellu'r amcanion iechyd allweddol y gallai'r cynllun peilot ymchwilio iddynt, yn ogystal â thynnu sylw at y risg bosibl y bydd incwm sylfaenol yn cael ei weld fel rhywbeth a fyddai'n disodli polisiâu nawdd cymdeithasol presennol (Jaeger a Wodchis 2017)

Yn debyg i arbrawf Manitoba, newidiodd y llywodraeth newydd y canlyniadau ar gyfer yr arbrawf hwn. Cafodd y prosiect ei ganslo yn fuan ar ôl yr

etholiadau taleithiol yn 2018, gan achosi ansicrwydd a phryder i'r bobl a gofrestrodd ar gyfer yr astudiaeth, a oedd wedi disgwyl incwm rheolaidd tan 2020. Ym mis Awst 2018, hysbyswyd y cyfranogwyr y byddai taliadau'n dod i ben ym mis Mawrth 2019 yn yr hyn a elwid yn 'broses dosturiol o ddirwyn y cynllun i ben', gan ganiatáu digon o amser i dderbynyddion drosglwyddo i raglenni cymorth mwy dibynadwy heb roi baich gormodol ar drethdalwyr Ontario.

Er bod hyd y treial wedi'i gwtogi, mae dwy astudiaeth yn darparu gwersi o'r astudiaeth. Yn gyntaf, mae canfyddiadau arolwg o dderbynyddion a gynhaliwyd ar ôl i'r peilot ddod i ben yn darparu rhywfaint o dystiolaeth ddefnyddiol (gweler Adran 3 am ganfyddiadau sy'n ymwneud ag iechyd a llesiant). O ran dirwyn y cynllun i ben yn gynnar, yn yr astudiaeth gyntaf, lle y cafwyd 424 o ymatebwyr i'r arolwg (9.4% o'r holl gyfranogwyr yn y cynllun peilot), roedd 80% yn teimlo bod eu problemau blaenorol yn dychwelyd ar ôl i'r incwm sylfaenol ddod i ben, gyda 61% yn nodi eu bod wedi canslo neu newid eu cynlluniau ar gyfer y dyfodol. Roedd 83% yn teimlo'n bryderus am y ffaith bod y cynllun wedi'i ganslo a'r hyn y byddai'n ei olygu iddyn nhw (Rhwydwaith Incwm Sylfaenol Canada 2019).

***“Roeddwn yn dechrau colli pwysau yn araf oherwydd roeddwn yn gallu fforddio opsiynau gwell.”***

Ymatebydd i arolwg Ontario, o Rwydwaith Incwm Sylfaenol Canada, 2019

Mae'r ail astudiaeth hefyd yn archwilio, drwy gyfweiliadau ac arolwg ar-lein a gynhaliwyd ar ôl i'r treial ddod i ben, sut yr effeithiodd yr incwm sylfaenol ar dderbynyddion. Ar gyfer yr arolwg, ymatebodd 217 o gyn-dderbynyddion (cyfradd ymateb oddeutu 20% o holl dderbynyddion yr incwm sylfaenol), ac ar gyfer y cyfweiliadau, cyfwelwyd â 40 o dderbynyddion ym mis Gorffennaf 2019 (Ferdosi et al. 2020). Nododd dros 95% o dderbynyddion a gymerodd ran yn yr astudiaeth hon fod canslo'r peilot wedi peri iddynt oedi neu roi'r gorau i'r cynlluniau bywyd yr oeddent wedi'u hystyried tra roddent yn derbyn incwm sylfaenol. Ystyrir gwersi pellach am iechyd a llesiant y derbynyddion yn yr astudiaeth hon yn [Adran 3](#).

### Astudiaeth Achos: B-MINCOME, Barcelona

<b>Cipolwg</b>	
<b>Nod</b>	Gwella incwm a chyfranogiad ac ymgysylltu dinesig, profi polisiau cymdeithasol ychwanegol
<b>Swm</b>	Amrywiol yn dibynnu ar yr amodau; rhwng €100 a €1,676
<b>Wedi'i dargedu neu gyffredinol?</b>	Wedi'i dargedu - 1,000 o aelwydydd wedi'u lleoli mewn 10 ardal â lefelau amddifadedd uchel yn Barcelona, gydag amrywiad o ran y gefnogaeth gymdeithasol bellach yr oedd y 1,000 o aelwydydd yn ei chael
<b>Amserlen</b>	2017-2020

Tabl 8 - Cipolwg ar arbrawf B-MINCOME. Ffynonellau: Colini, 2018; Colini, 2019

Cyflwynwyd cynllun peilot isafswm incwm gwarantedig (B-MINCOME) yn Barcelona, Sbaen, ac mae'n ymddangos fel astudiaeth achos mewn adroddiad gan WHO ar ddulliau o wella tegwch iechyd (Sefydliad Iechyd y Byd 2019, tud. 83–86). Nod y cynllun peilot oedd gwella nid yn unig enillion y derbynwyr, ond hefyd eu cyfranogiad a'u hymgysylltiad yn y gymdeithas ehangach mewn 10 ardal â lefelau uchel o amddifadedd yn Barcelona, ac arbrofi gyda gwahanol bolisiau cymdeithasol megis polisiau cyflogaeth (Colini 2018). Ei nod oedd gwneud hyn drwy ddarparu

buddion cymdeithasol nad oeddent yn rhai ariannol ochr yn ochr â'r isafswm incwm e.e. gwelliannau i dai. Roedd creu arian cyfred lleol hefyd yn cefnogi'r economi leol, gan alluogi busnesau lleol i elwa o gwsmeriaid newydd, ac mae cyfleoedd eraill i ymgysylltu â'r gymuned ac ar gyfer menter gymdeithasol wedi dod i'r amlwg. Roedd mynd i'r afael â thlodi trefol ac allgáu cymdeithasol yn amcanion clir yn y treial, a dewiswyd lleoliadau'r treial gan eu bod yn cynrychioli'r pryderon penodol hyn (Hill-Dixon et al. 2019).

***“Mae B-MINCOME yn effeithiol o ran lleihau'r tebygolrwydd o ddatblygu salwch meddwl. Ar gyfartaledd, gwelir gostyngiad o 9.6 pwynt, er bod mwy o effaith yn y grwpiau amodol ac anghyfyngedig***

(Ajuntament de Barcelona 2019)

(Cyfieithiad)

***“Gyda B-MINCOME, gallaf dalu am yr ysgol nawr. Gallwn brynu bwyd, gallwn brynu dillad, pethau i'r plant...Mae popeth ychydig yn well nawr.”***

Ymatebydd i werthusiad o Ganlyniadau Cychwynnol B-MINCOME (Ajuntament de Barcelona 2019)

Er mwyn datblygu'r cynllun peilot, cafodd Cyngor Dinas Barcelona grant gan y Comisiwn Ewropeaidd am dair blynedd (2017-2020), a ffurfiodd y Cyngor gynghrair o bedwar sefydliad arbenigol, gydag, er enghraifft, Sefydliad Young yn arwain yr ymchwil ansoddol i brofiadau cyfranogwyr (Sefydliad Young 2019).

O'r wybodaeth sydd ar gael yn Saesneg am y cynllun peilot hwn, mae'r canlyniadau cychwynnol yn dangos canlyniadau iechyd sy'n gysylltiedig â B-MINCOME (Ajuntament de Barcelona 2019), a defnyddiwyd ei ganfyddiadau i brototeipio gwahanol fodelau a diffinio

a gweithredu gwasanaethau modiwlwr (iechyd, addysg, cyflogaeth). Canfu ymchwilwyr fod y peilot wedi arwain at newid pwyslais o ran y ffordd y darparwyd cefnogaeth, gyda chynnydd mewn gwaith cyfranogol a chymunedol cymheiriad-i-gymheiriad, yn hytrach na chymorth sefydliadol.

Roedd llwyddiannau pellach yn cynnwys cydnabyddiaeth o ymdrech gydlynol ymhlith gwasanaethau i gyflawni'r peilot, newid yn y ddeinameg o ran pŵer rhwng cymunedau a'u gwasanaethau lleol, mwy o werthfawrogiad o anghenion pobl a gwelliannau mewn tegwch rhwng y rhywiau i fenywod. Fodd bynnag, nododd ymchwilwyr yr angen am fwy o amser ac adnoddau i sicrhau'r canlyniadau gorau o'r arbrawf – dim ond 7 gweithiwr cymdeithasol oedd ar gael i gefnogi 1000 o deuluoedd, ar ben eu gwaith rheolaidd; cynyddodd y prosiect B-MINCOME nifer y bobl sydd angen gweithwyr cymdeithasol (Colini 2019).

Fodd bynnag, roedd yr arbrawf hwn yn gymhleth o ran ei ddyluniad, ac yn cynyddu baich gweinyddol, yn enwedig o ran sut y cyfrifwyd swm yr incwm ar sail ystod o amodau'r aelwyd, megis oedran y plentyn, faint o oedolion sydd ar yr aelwyd, a gwariant yn ymwneud â thai.



## Astudiaeth Achos: Gogledd Carolina

<b>Cipolwg</b>	
<b>Nod</b>	Darparu difidendau bob dwy flynedd i aelodau cymuned Cherokee o elw gamblo
<b>Swm</b>	Yn amrywio; yn 2013, adroddwyd ei fod oddeutu \$7,700, ac yn 2015, adroddwyd ei fod yn uwch na \$9,000 y flwyddyn.
<b>Wedi'i dargedu neu gyffredinol?</b>	Cyffredinol ymhlith y gymuned llwythol – hanner yr holl elw sydd gan gyngor y llwyth, a'r hanner arall wedi'i ddyrannu'n gyfartal ymhlith 15,000 o aelodau cofrestredig. Mae plant yn cael cyfran lawn, ond buddsoddir yr arian nes eu bod yn graddio o'r ysgol uwchradd neu'n cyrraedd 21 oed.
<b>Amserlen</b>	Ar waith ers 1997

Tabl 9 - Cipolwg ar gynllun Gogledd Carolina. Ffynonellau: Bowling 2013; Sisk 2015; Costello et al. 2016; Lapowsky 2017; Marinescu [dim dyddiad]

Yn hytrach nag incwm sylfaenol a ariennir gan y wladwriaeth, mae'r enghraifft hon o gynllun trosglwyddo arian parod yn golygu bod difidendau yn cael eu talu i gymuned fel iawndal fwy neu lai am adeiladu casino ar dir llwythol, sef Harrah Cherokee Casino Resort. Adroddwyd yn 2015 bod dros \$0.5 biliwn wedi ei wario gan y 3.5 miliwn o ymwelwyr â'r casino (Sisk 2015). Mae gweithredwr y casino yn cadw 3% o'r elw blynyddol (Lapowsky 2017), gyda'r refeniw sy'n weddill yn cael ei roi yn ôl i'r gymuned. Mae cyngor y llwyth yn cadw 50% ohono i'w fuddsoddi mewn prosiectau seilwaith neu wasanaethau cymunedol eraill, ac mae'r 50% arall yn cael ei ddsbarthu'n ddiamod i'r 15,000 o aelodau'r llwyth. Mae hyn yn cynnwys plant, y buddsoddir difidendau ddwywaith y flwyddyn ar eu cyfer nes iddynt ddod yn oedolion. O ystyried yr 20+ mlynedd y mae'r system hon wedi bod ar waith, mae economegwyr ac ymchwilwyr eraill wedi gallu cymharu statws iechyd ac economaidd y

***"Fe wnaeth cynnydd o \$4,000 yn incwm y cartref arwain at ostyngiad o 22 y cant yn siawns y plant tlotaf o gyflawni mân droseddau."***

Lapowsky 2017 (Cyfieithiad)

llwyth, gan arsylwi'r effeithiau a'r canlyniadau pwerus sydd wedi dod yn ei sgil. Er enghraifft, mae aelodau'r llwyth sy'n cael y difidend yn parhau i weithio gymaint â'r rhai nad ydynt yn cael y difidend, maent wedi gwella eu haddysg, maent yn cyflawni llai o droseddau, mae eu iechyd meddwl wedi gwella ac mae'r nifer sy'n gaeth i sylweddau wedi lleihau (Marinescu 2017; Marinescu [dim dyddiad]).

Y tu hwnt i ariannu unigolion, mae cyllid y fenter hon i'r gymuned leol wedi arwain at fuddsoddiadau sylweddol mewn seilwaith wedi'u hariannu gan y gymuned. Mae cyngor y llwyth wedi gallu buddsoddi rhywfaint o'r gronfa neilltuedig mewn cronfa addysg coleg, seilwaith trafndiaeth, gwaith trin dŵr, a gwasanaethau meddygol lleol, gan ariannu ysbyty newydd gwerth \$80 miliwn yn 2015 (Sisk 2015; Lapowsky 2017).

## 3. Incwm sylfaenol, iechyd a llesiant

Dysgwyd gwersi pwysig yn ymwneud ag iechyd a phenderfynyddion ehangach o gynlluniau incwm sylfaenol a weithredwyd dros nifer o flynyddoedd, yn fwyaf diweddar gwersi o'r cynlluniau hynny yn Ontario, Canada a'r Ffindir. Fodd bynnag, yn y rhan fwyaf o achosion, rhaid bod yn ofalus wrth ddehongli'r canfyddiadau hyn oherwydd hyd cyfyngedig y treialon neu'r cynlluniau. Yn yr adran hon o'r adroddiad, cyflwynir crynodeb o arsylwadau allweddol yn Nhabl 10. Yma, mae tystiolaeth wedi'i dosbarthu fel a ganlyn:

- ✓ Effaith gadarnhaol a welwyd/a ragwelir yn sgil incwm sylfaenol
- ? Effaith ansicr/heb ei chadarnhau yn sgil incwm sylfaenol
- ✗ Effaith negyddol a welwyd/a ragwelir yn sgil incwm sylfaenol



Mae dyfyniadau mewn blychau testun drwy'r adroddiad cyfan wedi dangos rhai o'r canfyddiadau ansoddol, anecdotaidd mewn perthynas ag incwm sylfaenol, ac nid ydynt yn cael eu hailadrodd yn Nhabl 10.

*"Fe wnaeth i mi deimlo'n wych. Dechreuais hoffi fy nghorff eto. Doeddwn i ddim yn ei hoffi o'r blaen, ond ar ôl i mi gael yr aelodaeth, roeddwn i'n hoff iawn o'r canlyniadau a welais. Roeddwn yn sicr yn edrych yn well."*

Ymatebydd i astudiaeth Ferdosi et al., ar ymuno â champfa, 2020

*"Mae arna'i ofn bod heb arian eto! Dwi byth eisiau bod yn y sefyllfa honno eto. Dwi ddim eisiau mynd yn ôl i ble roeddwn i. Dwi eisiau parhau i symud ymlaen!"*

Ymatebydd i werthusiad o Ganlyniadau Cychwynnol B-MINCOME (Ajuntament de Barcelona 2019)

Incwm Sylfaenol, Iechyd a Llesiant - canfyddiadau o astudiaethau achos a llenyddiaeth (academaidd a llwyd)	
Penderfynydd	Tystiolaeth
Celfyddydau a Diwylliant	<p><b>Llenyddiaeth Lwyd</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>✓ Gallai incwm sylfaenol <b>alluogi'r holl boblogaeth i gael mwy o amser hamdden</b>, gan arwain at ymdrech greadigol (Standing 2017, tud. 179)</li> <li>✓ Byddai incwm sylfaenol <b>yn rhoi cyfle i gerddorion neilltuo mwy o'u hamser i'w gwaith creadigol</b> ond ni ellir ei ystyried ychwaith fel arian ychwanegol i bobl freintiedig nad oes ei angen arnynt (un o'r dadleuon allweddol yn erbyn y ffordd y gwelir bod cyllid y wladwriaeth ar gyfer y celfyddydau yn gweithredu). (Deller 2018)</li> </ul>
Busnes, yr Economi a Chyflogaeth	<p><b>Alasga</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>✓ <b>Dim effaith niweidiol ar gyflogaeth</b>, a nifer ychydig yn fwy o unigolion mewn gwaith rhan-amser, a allai fod wedi cynnwys pobl yn lleihau oriau gwaith neu'n dod i mewn i'r farchnad lafur (Jones a Marinescu 2020)</li> <li>✓ <b>Dim newid mewn patrymau gwaith</b>, gyda dim ond 1% o 1,004 o ymatebwyr i'r arolwg yn datgan bod incwm sylfaenol wedi gwneud iddyn nhw weithio llai (Isenberg 2017)</li> <li>✓ Sylwodd Kueng (2015) fod <b>cynnydd mewn gwariant aelwydydd</b> mewn cysylltiad â chael taliad difidend o Gronfa Barhaol Alasga. Roedd yr awduron o'r farn y gallai'r cynnydd hwn ysgogi galw yn y farchnad lafur a sbarduno mwy o gyflogaeth a chyflogau uwch yn yr ardal (Marinescu 2017)</li> <li>? O ystyried y swm cymedrol o incwm y mae'r cynllun hwn yn ei ddarparu, ni allai ysgolheigion fod yn siŵr a fyddai effeithiau'r farchnad lafur yn cael eu hefelychu mewn cynlluniau eraill sy'n cynnig incwm mwy sylweddol (Jones a Marinescu 2020)</li> </ul> <p><b>B-MINCOME</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>✓ <b>Effaith gadarnhaol a sylweddol ar lesiant ariannol</b>, ar draws yr holl grwpiau cyfranogi (Ajuntament de Barcelona 2019)</li> <li>✓ <b>Llai o angen i greu incwm ychwanegol</b> drwy weithgareddau fel rhentu ystafelloedd i bobl (Ajuntament de Barcelona 2019)</li> <li>✗ Llai o debygolrwydd y <b>bydd o leiaf un aelod o'r cartref mewn gwaith</b> (Ajuntament de Barcelona 2019)</li> </ul> <p><b>Y Ffindir</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>✓ Sylwyd nad oedd <b>dim gwahaniaethau mewn statws cyflogaeth</b> ymhlith y rhai a oedd yn cael neu ddim yn cael incwm sylfaenol (Kangas et al. 2019), fodd bynnag nodwyd <b>effeithiau cadarnhaol ar gyflogaeth</b> ymhlith <b>teuluoedd â phlant</b> sy'n cael yr incwm hwn, yn ogystal â'r rhai sy'n siarad iaith dramor (Kela 2020b)</li> <li>✓ Nododd Kela (2020b) <b>well llesiant ariannol</b> ymhlith derbynyddion incwm sylfaenol yn y Ffindir</li> </ul> <p><b>Manitoba</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>✓ <b>Dim effeithiau sylweddol ar y farchnad lafur</b> - roedd dynion yn gweithio 1% yn llai o oriau, roedd menywod yn gweithio 3% yn llai o oriau. Gwelwyd mwy o newidiadau ymhlith menywod priod, a arhosodd yn ddi-waith am gyfnod hwy ar ôl genedigaeth, a gwrywod 16 oed yn yr ysgol uwchradd, a wnaeth leihau eu horiau gwaith oherwydd eu bod yn parhau â'u haddysg (Hum a Simpson 1991, a ddyfynnwyd yn Forget 2018)</li> </ul> <p><b>Gogledd Carolina</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>✓ Mae astudiaeth achos Gogledd Carolina yn dangos <b>nad oes dim effeithiau negyddol ar y farchnad lafur</b>; arhosodd lefelau cyflogaeth yn sefydlog o ran derbynyddion y difidend arian parod, ac mae presenoldeb y casino yn y gymuned wedi creu swyddi newydd, gyda'r gymuned lwythol yn creu 5,500 o swyddi pellach yn 2015 yn sgil adeilad casino newydd (Sisk 2015)</li> </ul>

<p><b>Busnes, yr Economi a Chyflogaeth (parhad)</b></p>	<p><b>Ontario</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>✓ Dangosodd data arolwg o dreial Ontario fod 9% o'r ymatebwyr wedi bachu ar y cyfle a gyflwynwyd gan y cynllun peilot incwm sylfaenol i <b>ddechrau neu ehangu eu busnes eu hunain</b> (Rhwydwaith Incwm Sylfaenol Canada 2019)</li> <li>✓ Roedd y rhai a oedd yn gweithio cyn y ddarpariaeth incwm sylfaenol yn parhau i weithio, ac mewn rhai achosion wedi <b>symud i swyddi mwy sicr â chyflogau uwch</b>, gyda 79% yn dweud bod ganddynt ychydig mwy neu lawer mwy o gymhelliant i ddod o hyd i swydd sy'n talu'n well (Ferdosi et al. 2020)</li> </ul> <p><b>Llenyddiaeth Academaidd</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>✓ Canfu Gibson et al. (2020) anghysondebau yn y canfyddiadau ynghylch effeithiau cyflogaeth, ond <b>prin oedd y dystiolaeth o ostyngiadau mawr mewn lefelau cyflogaeth</b> yn sgil cynlluniau a ystyriwyd yn fath o incwm sylfaenol</li> </ul> <p><b>Llenyddiaeth Lwyd</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>? Gall incwm sylfaenol arwain at <b>lai o gymhelliant i weithio</b> (OECD 2017)</li> </ul>
<p><b>Plant a Theuluoedd</b></p>	<p><b>Manitoba</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>✓ <b>Ni welwyd dim effeithiau mewn perthynas ag ysgariad</b> ym Manitoba (Forget 2011b)</li> <li>✓ <b>Efallai mai plant oedd buddiolwyr mwyaf arbrawf Manitoba</b>, o ystyried eu bod wedi aros yn yr ysgol yn hirach, ac wrth iddynt dyfu'n oedolion, cawsant eu plentyn cyntaf yn hwyrach a chawsant lai o blant yn ystod eu bywydau (Forget 2018)</li> </ul> <p><b>Gogledd Carolina</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>✓ Erbyn 2001 - bedair blynedd ar ôl lansio'r casino a'r taliadau difidend ddwywaith y flwyddyn - roedd <b>nifer y plant a oedd yn byw mewn tlodi</b> yn y gymuned lwythol wedi haneru, ac <b>roedd problemau ymddygiad wedi lleihau 40%</b> (Costello et al. 2003)</li> <li>✓ Roedd <b>gwell canlyniadau i blant</b> hefyd yn gysylltiedig â gwell rhianta, gyda phlant yn nodi gwell rhyngweithio â'u rhieni ac roedd rhieni'n fwy ymwybodol o weithgareddau eu plant (Akee et al. 2010)</li> </ul> <p><b>Ontario</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>✓ Dywedodd dwy ran o dair o ymatebwyr i arolwg fod eu <b>perthynas ag aelodau'r teulu rywfaint yn well neu'n llawer gwell</b>, a'u bod yn <b>treulio mwy o amser gydag aelodau'r teulu</b> (Ferdosi et al. 2020)</li> <li>✓ Treuliodd 57% o ymatebwyr i arolwg fwy o amser gyda'r teulu ar ôl cael incwm sylfaenol (Rhwydwaith Incwm Sylfaenol Canada 2019)</li> </ul> <p><b>Llenyddiaeth Lwyd</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>✓ Ystyriodd adroddiad o Canada bod <b>Budd-dal Plant Canada yn warant incwm sylfaenol</b> i deuluoedd â phlant, gan ddangos bod 277,000 o deuluoedd o Canada wedi aros uwchlaw'r llinell dlodi yn 2017-18 o ganlyniad i'r Budd-dal Plant (Canolfan Dadansoddi Economaidd Canada 2019)</li> <li>- Yn 2019, galwodd Aberlour, elusen o'r Alban, am i incwm gwarantiedig ar gyfer pobl ifanc yn eu harddegau sy'n gadael gofal, fel modd o atal digartrefedd ac ansicrwydd ariannol, bara tan eu bod yng nghanol eu hugeiniau (Yeomans 2019)</li> </ul>

<p><b>Cymunedau</b></p>	<p><b>Alasga</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>– Gallai pobl sydd wedi cyflawni trosedd sy'n arwain at garchar <b>gael eu gwahardd</b> rhag cael taliadau difidend y flwyddyn ganlynol (Marinescu 2017; Chen 2018). Nid yw'n hysbys a yw'r risg hon o gael eu gwahardd wedi cael unrhyw effaith glir ar lefelau troseddu yn y dalaith.</li> </ul> <p><b>B-MINCOME</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>✓ Effaith gadarnhaol ar y tebygolrwydd y bydd pobl yn <b>gwirfoddoli</b> a <b>chymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden cymdeithasol</b> (Ajuntament de Barcelona 2019)</li> </ul> <p><b>Gogledd Carolina</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>✓ Nodwyd gostyngiad o 22% mewn <b>gweithgaredd troseddol</b> a hunangofnodir (i'w rhieni) ymhlith pobl ifanc 16 a 17 oed yn rhaglen difidend casino Gogledd Carolina, yn enwedig o ran gwerthu cyffuriau a mân droseddau (Akee et al. 2010; Lapowsky 2017; Marinescu 2017)</li> <li>✓ Mae'r gronfa gymunedol wedi <b>grymuso cymunedau</b> i benderfynu beth maen nhw am fuddsoddi ynddo, fel y gwaith trin dŵr lleol, cronfa addysg coleg, a phalmantu'r ffyrdd lleol (Lapowsky 2017; Marinescu 2017)</li> </ul> <p><b>Ontario</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>✓ Dangosodd data'r arolwg fod 52% o'r ymatebwyr wedi achub ar y cyfle a gyflwynwyd gan y cynllun peilot incwm sylfaenol i <b>dreulio mwy o amser gyda ffrindiau</b>, (Rhwydwaith Incwm Sylfaenol Canada 2019)</li> </ul> <p><b>Llenyddiaeth Lwyd</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>– Canfu traethawd ymchwil y gallai incwm sylfaenol <b>greu cymdeithas fwy cynhwysol</b> a mynd i'r afael ag allgáu cymdeithasol yn well na'r darpariaethau lles presennol, ond rhybuddiodd na all incwm sylfaenol newid yn sylweddol y mecanweithiau sy'n creu allgáu cymdeithasol (Flaherty 2015)</li> <li>✓ Canfuwyd bod trosglwyddiadau arian parod yn <b>gwella cyfalaf dynol, yn lleihau risg ac ansicrwydd i unigolion, ac yn lleihau anghydraddoldeb</b> - mae pawb yn elwa a'r tlotaf, sy'n dioddef yn anghymesur, sy'n elwa fwyaf (Forget et al. 2013)</li> </ul>
<p><b>Addysg a Sgiliau</b></p>	<p><b>Manitoba</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>✓ Roedd myfyrwyr yr oedd eu teuluoedd yn derbyn yr incwm <b>yn fwy tebygol o aros ymlaen yn yr ysgol</b> y tu hwnt i 'Ddosbarth 11' na myfyrwyr mewn trefi tebyg a <b>gwelwyd gwelliant mewn canlyniadau addysgol</b>, a allai fod oherwydd bod incwm uwch y cartref wedi caniatáu i rieni fuddsoddi mewn deunydd addysgol ar gyfer eu plant. Ystyriwyd hefyd y gallai fod wedi digwydd o ganlyniad i rieni'n treulio mwy o amser gyda'r plentyn (Forget 2011b; Marinescu 2017)</li> </ul> <p><b>Gogledd Carolina</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>✓ <b>Cynnydd yn y nifer a oedd yn graddio o'r ysgol uwchradd</b> ymhlith plant yr oedd eu teuluoedd yn cael y taliadau difidend bob dwy flynedd a <b>gwell canlyniadau addysgol a gwell presenoldeb</b> yn yr ysgol (Akee et al. 2010)</li> <li>✓ Rhywfaint o <b>fuddsoddiad mewn addysg coleg</b> gan y gronfa gymunedol – ychwanegodd y \$4,000 ychwanegol hwn y flwyddyn ar gyfer yr aelwydydd tlotaf flwyddyn arall at gyrhaeddiad addysgol pobl yn 21 oed (Akee et al. 2010; Sisk 2015; Lapowsky 2017; Marinescu 2017)</li> </ul> <p><b>Ontario</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>✓ Dangosodd data arolwg o dreial Ontario fod 32% o ymatebwyr wedi bachu ar y cyfle a gyflwynwyd gan y peilot incwm sylfaenol i <b>ddychwelyd i addysg</b> neu uwchraddio eu sgiliau ymhellach, er mai cyfradd ymateb gyfyngedig a gafwyd i'r arolwg (9.4%, n = 424) (Rhwydwaith Incwm Sylfaenol Canada 2019)</li> <li>✗ <b>Ni wnaeth</b> 74% o dderbynwyr incwm sylfaenol Ontario <b>ddechrau cwrs addysgol na hyfforddiant</b> (Ferdosi et al. 2020)</li> </ul>



<p><b>Ynni a'r Amgylchedd</b></p>	<p><b>B-MINCOME</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>– <b>Dim newidiadau ystadegol arwyddocaol</b> mewn perthynas â <b>thlodi ynni</b> (Ajuntament de Barcelona 2019)</li> </ul> <p><b>Lloegr</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>– Ystyriodd ymgynghoriad yn 2017 sut y gallai <b>elw o echdynnu nwy siâl</b> ('ffracio') <b>ariannu buddsoddiad cymunedol</b>, a disgwyliwyd i oddeutu £10 miliwn gael ei godi ar gyfer pob ardal lle roedd nwy siâl i gael ei echdynnu (Trysorlys EM 2017a; Trysorlys EM 2017b). Ystyriodd yr ymgynghoriad hwn yr hyn y byddai'r arian yn cael ei ddefnyddio ar ei gyfer a sut y byddai'n cael ei weinyddu, ac roedd yn cynnwys y posibilrwydd y byddai cartrefi yn derbyn taliadau yn uniongyrchol. Cafodd ffracio ei atal yn y pen draw ym mis Tachwedd 2019 ar ôl pryderon ynghylch dirgryniad (Newyddion y BBC 2019a).</li> </ul> <p><b>Gogledd Carolina</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>✓ Buddsoddodd cronfa gymunedol y llwyth tua \$26 miliwn o'i reffeniw mewn <b>gwaith trin dŵr gwastraff</b>, i ddarparu dŵr yfed glân a chyfleusterau carthffosiaeth, gan <b>wella iechyd yr amgylchedd</b> i'r gymuned (Sisk 2015; Lapowsky 2017).</li> </ul> <p><b>Llenyddiaeth Lwyd</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>– Yn 2019, yn Iwerddon, adroddwyd bod y Taoiseach Leo Varadkar yn cefnogi'r <b>syniad o dreth garbon</b> lle y byddai'r arian a dderbynnid yn mynd tuag at ddifidend a gâi ei dalu'n ôl i ddinasyddion (Murphy 2019)</li> </ul>
<p><b>Tegwch</b></p>	<p><b>Alasga</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>✓ Dangoswyd bod taliad difidend wedi <b>lleihau tlodi ymhlith pobl frodorol Alasga</b> 22% rhwng 2011-2015, gostyngiad o gymharu â 46% yn 2000 (Berman a Reamey 2016; Berman 2018)</li> </ul> <p><b>B-MINCOME</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>✓ Mewn perthynas â <b>thegwch rhwng y rhywiau</b>, cynyddodd y peilot hwn degwch i fenywod, gan eu galluogi i gael mynediad at wasanaethau nad oeddent wedi gallu manteisio arnynt o'r blaen (Colini 2019)</li> </ul> <p><b>Y Ffindir</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>✓ Canfuwyd bod <b>siaradwyr iaith dramor</b> a oedd yn derbyn incwm sylfaenol yn fwy tebygol o gael gwell canlyniadau cyflogaeth (Kela 2020b)</li> </ul> <p><b>Ontario</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>– Gwelwyd <b>nad oedd incwm sylfaenol yn gwneud i bobl ag anableddau ddod o hyd i waith</b>; fodd bynnag adroddwyd bod ganddynt <b>well iechyd a llesiant</b> ar ôl derbyn incwm sylfaenol. Ymhellach, adroddwyd eu bod yn <b>ymgysylltu mwy â'u cymunedau</b> lleol ac yn gallu dod o hyd i <b>lety gwell</b> (Ferdosi et al. 2020)</li> </ul> <p><b>Llenyddiaeth Lwyd</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>✓ Mae ysgolheigion wedi ystyried safbwyntiau rhywedd yn ymwneud ag incwm sylfaenol (Zelleke 2011; McLean a McKay 2015; Rhwydwaith Incwm Sylfaenol Canada 2017; Olorenshaw 2018). Roedd yr awduron yn ystyried bod incwm sylfaenol yn fater o <b>gyfiawnder cymdeithasol i fenywod</b> sydd â nifer o rolau di-dâl o fewn yr aelwyd, megis gofal plant a chyfrifoldebau gofalu eraill</li> <li>– Byddai incwm sylfaenol i bobl a chanddynt <b>anabledd</b> difrifol yng Nghanada ond yn disodli llawer o'r rhaglen les dewis olaf i bobl ag anableddau ond byddai'n dal i wella bywydau cannoedd ar filoedd o bobl ag anableddau sydd bellach yn byw mewn tlodi difrifol (Mendelson et al. 2010)</li> <li>✓ Byddai incwm sylfaenol yn seiliedig ar egwyddorion dinasyddiaeth gymdeithasol yn darparu incwm digonol i bobl sy'n byw gydag anabledd (Mai 2016)</li> </ul>

<p><b>Bwyd</b></p>	<p><b>B-MINCOME</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>✓ <b>Pryderu llai am fwyta</b> – gostyngiad o 16-18% mewn pryderon ynghylch peidio â chael digon o fwyd i'w fwyta (Ajuntament de Barcelona 2019)</li> </ul> <p><b>Ontario</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>✓ Roedd 28% o'r ymatebwyr i'r astudiaeth <b>wedi rhoi'r gorau i ddefnyddio banciau bwyd</b>, roedd 55% yn prynu bwyd na fyddent yn gallu ei fforddio fel arfer, ac roedd 74% ohonynt <b>yn gallu gwneud dewisiadau bwyd iachach</b>, ond cafeat ar gyfer dehongli hyn yw bod y gyfradd ymateb i'r arolwg hwn yn gyfyngedig (9.4%, n=424) (Rhwydwaith Incwm Sylfaenol Canada 2019)</li> <li>✓ Roedd 69% o'r derbynwyr a oedd yn rhan o'r astudiaeth yn <b>methu prydau bwyd yn llai aml neu'n llawer llai aml</b>, ac yn bwyta mwy o brydau bwyd cytbwys rheolaidd yn gysylltiedig â derbyn yr incwm. Roedd 68% yn <b>defnyddio banc bwyd yn llai aml neu'n llawer llai aml</b>. Roedd 85% yn bwyta bwyd maethlon yn amlach neu'n llawer amlach (Ferdosi et al. 2020)</li> </ul> <p><b>Llenyddiaeth Lwyd</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>✓ Ystyriwyd y byddai incwm sylfaenol, drwy wella incwm cartrefi, yn golygu bod teuluoedd yn gallu fforddio bwyd iachach a mwy maethlon. Credwyd hefyd y byddai gwella incwm cartrefi yn gwella darpariaeth bwyd iachach ac felly'n <b>lleihau costau gofal iechyd uniongyrchol</b> (Tarasuk 2017)</li> </ul>
<p><b>Effeithiau/ Canlyniadau Iechyd</b></p>	<p><b>Alasga</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- Dim ymchwil ar ganlyniadau iechyd uniongyrchol penodol. Nododd Goldsmith (2010) fod hyn oherwydd <b>nad yw pobl Alasga'n meddwl am y difidend fel arf i fynd i'r afael â'r problemau hyn</b> a hefyd oherwydd yr <b>anhawster i ganfod effaith y difidend ar y mesurau hyn yn annibynnol ar yr holl raglenni a dylanwadau eraill.</b></li> </ul> <p><b>B-MINCOME</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>✓ <b>Effaith gadarnhaol ar risgiau salwch meddwl</b>; nodwyd gostyngiad yn y tebygolrwydd o ddatblygu salwch meddwl, ond gyda'r cafeat fod gan 83% o boblogaeth y grŵp rheoli eisoes yr hyn y mae'r ymchwilwyr yn ei alw'n risg o ddatblygu salwch meddwl (Ajuntament de Barcelona 2019)</li> <li>✓ <b>Lefel uwch o lesiant cyffredinol</b> (Ajuntament de Barcelona 2019)</li> <li>✓ Gwelwyd gwelliant bach mewn <b>ansawdd cwsg</b> (Ajuntament de Barcelona 2019)</li> <li>- <b>Dim newidiadau ystadegol arwyddocaol mewn hunanganfyddiad o iechyd</b> ymhlith y derbynyddion (Ajuntament de Barcelona 2019)</li> </ul> <p><b>Y Ffindir</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- Adroddodd y cyfranogwyr yn yr arolwg (cyfradd ymateb o 23% gan bawb sy'n derbyn incwm sylfaenol) <b>well lesiant meddyliol</b> na'r grŵp rheoli, a gwell boddhad gyda'u bywydau, a <b>llai o straen meddyliol, iselder ac unigrwydd</b>. Nododd y derbynyddion hefyd <b>welliannau mewn galluoedd gwybyddol</b> megis y cof a chanolbwyntio. Nid oedd ymchwilwyr yn gallu dweud a oedd y canfyddiadau hyn i'w priodoli'n uniongyrchol i ddarparu incwm sylfaenol (Kangas et al. 2019; Kela 2020c)</li> </ul> <p><b>Manitoba</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>✓ <b>Gostyngiad o 8.5% mewn derbyniadau i'r ysbyty</b> - roedd hyn yn arbennig o amlwg mewn perthynas â <b>damweiniau, anafiadau a chyflyrau iechyd meddwl</b>. Ni chanfuwyd unrhyw dystiolaeth mewn perthynas ag effeithiau ar ffrwythlondeb neu oedi cyn cael plant, ac ni chafwyd unrhyw dystiolaeth mewn perthynas â gwell canlyniadau genedigaeth (Forget 2011a; Forget 2011b)</li> </ul> <p><b>Gogledd Carolina</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- Er 1992, mae ymchwilwyr wedi dilyn 1,420 o blant rhwng 9 a 13 oed ym 1992. Dangosodd canfyddiadau cynnar bedair blynedd ar ôl cyflwyno'r taliadau difidend bod <b>symptomau seiciatryddol</b> plant yn y categori 'arfer bod yn dlawd' yn yr astudiaeth yn gwella ond yn aros yr un fath i blant yn y categori 'byth yn dlawd' yn dilyn cyflwyno'r difidend, ond <b>nid oedd newid sylweddol mewn symptomau seiciatryddol ymhlith y rhai cyson dlawd</b> (Costello et al. 2003)</li> </ul>

**Effeithiau/  
Canlyniadau  
Iechyd  
(parhad)**

**Gogledd Carolina (parhad)**

- ✓ Wrth i'r plant hyn dyfu'n oedolion, gwelwyd **cyfraddau is o anhwylderau seiciatryddol ac anhwylderau defnyddio sylweddau** ymysg y rhai a oedd yn cael yr atodiad incwm. Mae'r asesiad diweddaraf yn yr astudiaeth yn cadarnhau'r canfyddiadau cynharach, gyda'r **rhai ieuengaf pan ddechreuwyd y taliadau difidend yn llai tebygol o fod wedi datblygu problemau iechyd meddwl neu anhwylderau'n gysylltiedig â defnyddio sylweddau** (Costello et al. 2010; Costello et al. 2016)

**Ontario**

- ✓ Arweiniodd incwm sylfaenol at ymweliadau llai aml ag ymarferwyr iechyd ac unedau brys. Dywedodd 80% o'r ymatebwyr yn yr astudiaeth fod eu hiechyd wedi gwella ers iddynt gael incwm sylfaenol. Dywedodd 80% fod eu **llesiant meddyliol wedi gwella**. Dywedodd 83% fod **talw am feddyginiaeth yn haws neu'n llawer haws**, gyda 74% yn dweud yr un peth mewn perthynas â **thalu am ofal deintyddol** (Ferdosi et al. 2020)
- ✓ Roedd 41% o'r ymatebwyr i'r arolwg (N = 424) mewn gwell sefyllfa i allu prynu meddyginiaeth, gyda 45% yn nodi eu bod wedi cael llai o broblemau iechyd ac 17% wedi gallu lleihau'r defnydd o feddyginiaeth; nododd 88% lai o straen a phryder, a nododd 73% lai o iselder (Rhwydwaith Incwm Sylfaenol Canada 2019)
- ✗ Wedi i'r treial ddod i ben yn ddisymwth, amlygodd gohebiaeth anecdotaidd gan dderbynyddion a oedd wedi dioddef problemau iechyd meddwl gydol oes a defnyddio sylweddau, neu'r rhai â sgoriau uchel o ran Profiadau Niweidiol yn Ystod Plentyndod, bryderon ynghylch **cynnydd mewn pryderon iechyd meddwl oherwydd i'r cynllun peilot ddod i ben yn annisgwyl**. Roedd y rhain yn bobl a oedd, am y tro cyntaf, wedi cael ymdeimlad o sicrwydd yn sgil yr incwm (Forget 2018)

**Llenyddiaeth Academaidd**

- Damcaniaethodd Sircar a Friedman (2018) y gallai incwm sylfaenol **gael effeithiau cadarnhaol ar iechyd**, ond cydnabu y byddai hyn yn dibynnu ar ddyluniad y cynllun ac a oedd arian yn cael ei gymryd oddi wrth fentrau cymorth cymdeithasol eraill er mwyn ei gyllido.
- Daeth adolygiad cwmpasu o effeithiau incwm sylfaenol ar iechyd y cyhoedd i'r casgliad mai **prin oedd y dystiolaeth o effeithiau posibl ar iechyd y cyhoedd**, ond gwelwyd **effeithiau cadarnhaol cryf ar ganlyniadau fel pwysau geni ac iechyd meddwl** (Gibson et al. 2020)

**Llenyddiaeth Lwyd**

- Edrychodd Ståhl (2019) ar incwm sylfaenol drwy lens y **berthynas rhwng gwaith, lles ac iechyd meddwl**, o styried yr effeithiau posibl y gallai incwm sylfaenol eu cael ar **wella canlyniadau sy'n gysylltiedig â straen a hybu iechyd a llesiant** yn gyffredinol.
- Cyhoeddodd NHS Health Scotland bapur briffio yn amlinellu'r cysyniad o 'incwm cyffredinol', gan gynnwys yr achos o blaid ac yn erbyn y system, ac argymhellodd y dylid cynnal **adolygiad systematig o fodelau ac effeithiau (ar draws canlyniadau iechyd a chymdeithasol)** polisiau incwm cyffredinol blaenorol (NHS Health Scotland 2017, tud.6)
- ✓ Mae WHO Ewrop wedi ystyried yn fanwl y potensial i incwm sylfaenol fod yn fodd o fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd. Ystyriodd yr adroddiad hwn yr achos dros incwm sylfaenol, beth fyddai'r ffactorau llwyddiant, a **sut y gellir cynllunio cynllun incwm sylfaenol i hyrwyddo tegwch o ran iechyd**. Ystyriodd hefyd pa rôl y gallai Sefydliad Iechyd y Byd ei chwarae mewn unrhyw bolisiau incwm sylfaenol a roddir ar waith (Haagh a Rohregger 2019)
- ✗ Gan ganolbwyntio ar enghreifftiau o drosglwyddo arian parod yn **America Ladin**, amlygodd WHO fod **rhaid unioni diffyg gwybodaeth am effaith systemau iechyd er mwyn cael dealltwriaeth lawn o'r graddau y mae trosglwyddo arian parod yn cyfrannu at well llesiant** (Forde et al. 2012, tud.552)

<p><b>Tai</b></p>	<p><b>B-MINCOME</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- <b>Dim newidiadau ystadegol arwyddocaol mewn pryderon ynghylch taliadau tai dyledus</b> (Ajuntament de Barcelona 2019)</li> </ul> <p><b>Ontario</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>✓ Dangosodd data arolwg o dreial Ontario fod 59% o ymatebwyr (n=424; cyfradd ymateb 9.4%) wedi <b>gwella eu sefyllfa dai</b> (Rhwydwaith Incwm Sylfaenol Canada 2019)</li> <li>✓ <b>Symudodd sawl derbynydd a astudiwyd i lety â rhent uwch</b>, nododd 85% eu bod yn chael hi'n <b>haws neu'n llawer haws prynu pethau sylfaenol i'r cartref</b> megis cynhyrchion diogelwch cartref ac addasiadau i'r cartref ar gyfer materion symudedd (Ferdosi et al. 2020)</li> </ul>
<p><b>Chwaraeon a Gweithgaredd Corfforol</b></p>	<p><b>Ontario</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>✓ Roedd 74% o dderbynyddion incwm sylfaenol yn <b>cymryd rhan mewn gweithgaredd corfforol yn amlach neu'n llawer amlach</b> (Ferdosi et al. 2020)</li> </ul> <p><b>Llenyddiaeth Lwyd</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>✓ Gallai helpu'r rhai sydd â'r potensial i ddod yn bobl chwaraeon elitaidd i ymrwymo amser i'w hyfforddiant. Dadleuodd Standing fod y system hon yn bodoli eisoes i raddau, gyda Llywodraeth y DU yn ariannu athletwyr elitaidd drwy ddefnyddio arian o elw'r Loteri Genedlaethol, a bod yr egwyddor hon yn <b>cydnabod bod angen diogelwch sylfaenol ar bobl i ddatblygu eu doniau, eu potensial a'u galwedigaeth</b> (2017, tud.178–179).</li> </ul>
<p><b>Trafnidiaeth</b></p>	<p><b>Gogledd Carolina</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>✓ Ariannodd cyngor y llwyth y gwaith o <b>ddatblygu ffyrdd newydd</b> drwy gyfran o'i refeniw incwm sylfaenol (Lapowsky 2017)</li> </ul> <p><b>Ontario</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>✓ Dangosodd data'r arolwg fod 20% o'r ymatebwyr (n=424; cyfradd ymateb o 9.4%) <b>mewn sefyllfa well i fforddio talu am dtrafnidiaeth i'r gwaith</b>, gyda 75% yn llai pryderus am gost trafndiaeth (Rhwydwaith Incwm Sylfaenol Canada 2019)</li> </ul>

Tabl 10 - Incwm sylfaenol, iechyd a llesiant - arsylwadau o astudiaethau achos a llenyddiaeth

*“Llwyddais i aros gartref gyda fy merch fach tra bod fy nyweddi'n dychwelyd i'r ysgol a mis Mawrth, ar ôl iddi orffen, rwy'n mynd yn ôl i'r gwaith”*

Ymatebydd i arolwg Ontario, o Rwydwaith Incwm Sylfaenol Canada, 2019

*Yn Ontario, rhoddodd 28% o'r ymatebwyr i'r arolwg y gorau i ddefnyddio banciau bwyd, roedd 55% yn prynu bwyd nad oeddent yn gallu ei fforddio fel arfer, ac roedd 74% yn gallu gwneud dewisiadau bwyd iachach*

Ffynhonnell: Rhwydwaith Incwm Sylfaenol Canada 2019

## 4. Incwm sylfaenol yng Nghymru: cymryd y cam nesaf

**Mae'r alwad am gynlluniau peilot incwm sylfaenol yng Nghymru yn parhau i dyfu, ac felly hefyd beirniadaeth o'r cysyniad. Felly sut y gall y rhai sydd â diddordeb yn y mater hwn fynd â'r ddadl yn ei blaen? Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn defnyddio'r dystiolaeth i nodi rhai meysydd allweddol i'w hystyried.**

### Bod yn glir ynghylch nodau ac uchelgeisiau unrhyw gynllun arfaethedig

Mae nodau ac amcanion clir ar gyfer incwm sylfaenol yn angenrheidiol er mwyn gwneud y cynigion yn gredadwy ac ennyn cefnogaeth i'r fenter. Yn rhy aml o lawer, mae incwm sylfaenol wedi'i gynig fel ateb i ystod eang o faterion cymdeithasol, heb nodi'r problemau penodol y gallai incwm sylfaenol fynd i'r afael â nhw.

Yn enghraifft y Ffindir, roedd arweinwyr yr astudiaeth yn glir ynghylch cylch gwaith yr arbrawf - hynny yw, archwilio incwm sylfaenol fel mecanwaith posibl ar gyfer diwygio nawdd cymdeithasol. Nod prosiect MINCOME Barcelona oedd archwilio effeithiau incwm sylfaenol gwarantedig ar y cyd ag ystod o bolisiau cymdeithasol eraill. Yn enghraifft Ontario, nod y llywodraeth oedd profi a fyddai incwm sylfaenol yn gwella canlyniadau iechyd ac addysg i bobl ar incwm isel ac yn cefnogi gweithwyr sy'n agored i niwed yn well.

Mae ysgolheigion wedi darparu syniadau a gwersi ar sut y gellid cynllunio cynllun peilot incwm sylfaenol, a'r rhesymeg dros gyflwyno incwm sylfaenol, a allai gynorthwyo i ddatblygu nodau ac amcanion (Forget et al. 2016; Segal 2016; Young 2018; Standing 2019).

### Nodi rhanddeiliaid allweddol i gymryd rhan yn y gwaith dylunio, a chysylltu ac ymgysylltu â nhw

Mae cydlyniant a chydweithrediad rhwng rhanddeiliaid amlsector, amlddisgyblaethol nid yn unig yn gwella effeithlonrwydd, mae hefyd yn gwella effeithiolrwydd a'r tebygolrwydd o lwyddo. Roedd yr astudiaeth beilot yn y Ffindir a gwaith cwmpasu yn yr Alban yn cynnwys nifer fawr o sefydliadau (Kela 2016b; Grŵp Llywio Astudiaeth Dichonoldeb Incwm Sylfaenol y Dinesydd 2020)

***"Mae popeth wedi newid. Rwyf wedi cwrdd â phobl diolch i B-MINCOME. Doeddwn i ddim yn siarad â Mwslimiaid na phobl Pacistanaidd o'r blaen.."***

Ymatebydd i werthusiad o Ganlyniadau Cychwynnol B-MINCOME (Ajuntament de Barcelona 2019)

***"Nawr rydw i mewn gwell sefyllfa i chwilio am waith. Gallaf dalu i argraffu fy CV neu i deithio ar drafnidiaeth gyhoeddus. Doeddwn i ddim yn gallu gwneud dim o hynny o'r blaen"***

Ymatebydd i werthusiad o Ganlyniadau Cychwynnol B-MINCOME (Ajuntament de Barcelona 2019)

Gellir nodi rhanddeiliaid ychwanegol drwy broses ymgynghori gyhoeddus gyffredinol, y dylid ei chynnal cyn gynted â phosibl, cyn unrhyw ymrwymiad i fath penodol o gynllun. Mae hyn yn galluogi rhanddeiliaid i gyfrannu at ddyluniad y cynllun, a nodi unrhyw beryglon posibl; mae'r cyflwyniad gan gyrff iechyd cyhoeddus Ontario yn enghraifft dda o hyn ar waith (Jaeger a Wodchis 2017). Mae'r cynnig ar gyfer arbrawf peilot Ontario yn cyflwyno dull clymblaid o ddylunio a darparu cynllun incwm sylfaenol, ac mae ystod o rolau a chyfrifoldebau ar gyfer gwahanol weithwyr proffesiynol yn cael eu hargymell (Segal 2016).

## Ystyried y cyd-destun polisi presennol a sut mae incwm sylfaenol yn cyd-fynd â'r fframweithiau strategol presennol

Wrth ystyried y potensial ar gyfer cyflwyno incwm sylfaenol yng Nghymru, mae'n bwysig edrych drwy lens y fframweithiau polisi a strategol presennol ac ystyried sut mae cynllun incwm sylfaenol yn cyd-fynd â'r cyd-destun polisi presennol yng Nghymru. Ym mis mai Mai 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ymrwymiad i gynllun peilot ar incwm sylfaenol.

Yng Nghymru, mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn darparu fframwaith clir, y mae cyrff cyhoeddus yn ei ddefnyddio i fynd i'r afael â heriau'r presennol a'r dyfodol. Drwy lens 'Nodau Llesiant' y Ddeddf a'i hystod o ddangosyddion mesur canlyniadau, mae'r rhai sy'n gweithio ar lunio a datblygu cynigion incwm sylfaenol yng Nghymru hefyd yn elwa o gael syniad clir o rai o'r heriau presennol yng Nghymru y gall incwm sylfaenol gyfrannu tuag atynt, a fframwaith ar gyfer sut y gallai gweithio ar y cyd helpu i ddatrys rhai o'r heriau hyn, megis lliniaru tlodi, neu wella cyrhaeddiad addysgol. Bydd y dystiolaeth bresennol ar gyfer incwm sylfaenol, fel yr amlygwyd yn yr adroddiad hwn ac wedi'i addasu i gyd-destun Cymru, yn cynorthwyo i fframio polisi ar gyfer ystod o ganlyniadau iechyd a thegwch.

## Gwneud gwaith modelu a chynnal astudiaethau dichonoldeb ac asesiadau effaith i archwilio'r hyn y gallai incwm sylfaenol ei olygu yng nghyd-destun Cymru

Er bod yr adroddiad hwn yn tynnu sylw at ystod o wahanol ddulliau o ymdrin â strwythurau a diffiniadau cynllun incwm sylfaenol, yr hyn nad yw'n ei wneud, ac na all ei wneud yw amlinellu'n fanwl pa mor ymarferol fyddai cynllun incwm sylfaenol yng nghyd-destun Cymru. Mae'r gwaith hwn yn gam cyntaf sylfaenol i unrhyw bartion sydd â diddordeb, a dylai cynnig ar gyfer sut y gallai astudiaethau o'r fath gael eu cynllunio a'u cyflwyno fod yn gonglfaen i unrhyw gynnig incwm sylfaenol. Mae'r enghreifftiau o'r Alban, y Ffindir ac Ontario yn darparu gwersi ar sut i gynnal astudiaethau dichonoldeb (Kangas 2015; Segal 2016; Kela 2020a; Prifysgol Strathclyde, Sefydliad Fraser of Allander 2020)

## Ystyried hyfywedd incwm sylfaenol mewn cyd-destun datganoledig

Mae angen ystyried ymarferoldeb cyflwyno incwm sylfaenol mewn gweinyddiaeth ddatganoledig fel Cymru. Byddai cynllun incwm sylfaenol, drwy ddiffiniad, yn pontio ystod o adrannau'r Llywodraeth a meysydd polisi, gyda rhai pwerau'n cael eu harfer yn llawn gan Lywodraeth Cymru (megis addysg, iechyd, tai) ac eraill wedi'u cadw'n ôl i San Steffan (megis lles). Gan gymryd polisi lles fel esiampl, mae hyn yn parhau i fod yn fater sydd wedi'i gadw'n ôl i Lywodraeth y DU, felly nid yw'n ymarferol disodli'r system les yng Nghymru â math o incwm sylfaenol heb gydsyniad llawn Llywodraeth y DU.

Serch hynny, mae'n bwysig cydnabod bod cynlluniau incwm sylfaenol a ddatblygwyd ac a weithredwyd mewn manau eraill yn aml wedi bod ar lefel is-genedlaethol, megis Cronfa Barhaol Alasga, cynllun incwm sylfaenol Ontario ac arbrawf Manitoba yn y 1970au. Felly, er gwaethaf y problemau ymarferol sy'n gynhenid wrth wahanu pwerau datganoledig a phwerau a gadwyd yn ôl rhwng Cymru a'r DU, efallai bod cyfleoedd i bolisi incwm sylfaenol gael ei gyflwyno yng nghyd-destun datganoledig Cymru. Er enghraifft, byddai angen i Lywodraethau Cymru a'r DU gydweithio'n agos i ddylunio a gweithredu cynllun incwm sylfaenol. Yng nghynigion peilot yr Alban, mae Llywodraeth yr Alban yn gweithio'n agos gydag Adran Gwaith a Phensiynau Llywodraeth y DU a Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi (CTHEM) mewn perthynas â'r pwerau lles sydd heb eu datganoli a derbyniadau treth fel ei gilydd. (Basic Income Scotland 2019).

## Ystyried sut y byddai cynllun incwm sylfaenol yn cael ei gyflwyno, a phwy fyddai'n gyfrifol am gyflawni'r cynllun

Mae enghreifftiau a weithredwyd mewn mannau eraill wedi cynnwys ystod o randdeiliaid yn y gwaith o gyflawni, monitro a gwerthuso cynlluniau incwm sylfaenol.

Fel rhan o brosiect B-MINCOME Barcelona, cyfrannodd rhanddeiliaid at ddylunio a chyflwyno'r arbrawf, gyda phrifysgolion yn cynnal ymchwil dadansoddol, cyfranogol ac ethnograffig; Sefydliad Trydydd Sector yn cynnal arolygon; a chynghor y ddinas yn cynorthwyo gyda gwerthuso'r effaith a gwerthusiad economaidd. Mae'r enghreifftiau o Ontario a'r Ffindir wedi dangos cryfder dull cydweithredol o fonitro a chyflawni eu cynlluniau.

Yn enghraifft Ontario, sefydlwyd dau grŵp cynghori i werthuso'r peilot: Cyngor Cynghori'r Gweinidog, yn darparu cyngor ac argymhellion am yr astudiaeth i'r llywodraeth; a Phwyllgor Cynghori ar Ymchwil a Gwerthuso, i fonitro'r astudiaeth.

Mae Forget et al. (2016) yn argymhell bod tasglu annibynnol, anllywodraethol yn cael ei sefydlu i ddylunio a chyflwyno cynllun peilot incwm sylfaenol, gyda phwyllgor ymgynghorol yn cynnwys grwpiau buddiant amrywiol yn cael eu sefydlu i gefnogi'r tasglu.

***"Roedd yn bosibl i mi roi cynnig ar ychydig o swyddi gwahanol... rhoi cynnig ar bethau newydd, gweld beth sy'n addas i mi a beth sydd ddim heb orfod poeni o ble byddwn yn cael fy mwyd."***

Ymatebydd i arolwg Ontario, o Rwydwaith Incwm Sylfaenol Canada, 2019

O ran y cynlluniau a weithredwyd, mae ystod o sefydliadau wedi bod yn rhan o agweddau ar ddylunio a darparu incwm sylfaenol, megis:

- Academia
- Sefydliadau/ffederasiynau busnes
- Gwasanaethau Iechyd
- Adrannau llywodraeth genedlaethol a llywodraeth leol
- Undebau llafur

Gall rhai rolau/dyletswyddau y dylid penderfynu arnynt cyn gweithredu unrhyw gynllun incwm sylfaenol ar sail barhaus gynnwys:

- Modelu economaidd
- Dadansoddi a gwerthuso polisi cyhoeddus
- Dadansoddi a gwerthuso iechyd
- Dylunio a darparu ymchwil (ansoddol a meintiol)

Oherwydd ystod o effeithiau a chanlyniadau posibl unrhyw gynllun incwm sylfaenol, mae'n bwysig bod ystod o sefydliadau ac adrannau'r llywodraeth yn ymwneud â chyflawni unrhyw gynllun. Er enghraifft, yn Ontario, roedd Gweinidogion sy'n gyfrifol am Leihau Tlodi, Addysg, Gwasanaethau Cymunedol a Chymdeithasol a Thai i gyd yn cymryd rhan mewn ymarferion ymgynghori cychwynnol.

## Datblygu cynllun monitro a gwerthuso ar y cyd

Mewn perthynas â data meintiol, mae'n bosibl bod dull casglu data eisoes ar waith ar gyfer llawer o'r hyn yr ydym am ei ddysgu o gynllun incwm sylfaenol yn y dyfodol, megis Dangosyddion Cenedlaethol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Arolwg Cenedlaethol Cymru, a'r Fframwaith Canlyniadau Iechyd Cyhoeddus (Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru 2019), felly efallai na fydd angen set ddata newydd ar gyfer incwm sylfaenol.

Mae profiadau ansoddol yn hanfodol i ddeall effaith unrhyw bolisi cyhoeddus newydd. Bydd mecanwaith ar gyfer ymgysylltu â'r rhai sy'n cael arian o'r cynllun, ac yn ymwneud â chyflawni'r cynllun, yn cynorthwyo i werthuso a monitro sut mae'r peilot/cynllun yn gweithredu ac yn cyflawni ei nodau a'i amcanion.

## 5. Casgliadau

**Mae incwm sylfaenol yn syniad polisi cymhleth, gyda goblygiadau ar draws cymdeithas – ac yn dibynnu ar ei ddyluniad a'i weithrediad, gallai'r canlyniadau fod yn gadarnhaol yn ogystal â negyddol. Mae tystiolaeth o effeithiau'r byd go iawn yn addawol ond yn amhendant, yn enwedig o ystyried y diffyg tystiolaeth hydredol. Gwyddom fod incwm sylfaenol yn ymwneud â mwy na dim ond incwm - gall ymwneud â chreu cyfleoedd i weithio, ymgysylltu â'r celfyddydau, a gwella addysg. Gall ymwneud â thegwch a chydaddoldeb. Gallai gynhyrchu oes entrepreneuriaidd newydd, neu gallai ddod â phwysau yn sgil ansicrwydd incwm i ben wrth i ni bontio i oes fwy awtomataidd gyda llai o swyddi. Mae tystiolaeth gynnar wedi dangos bod incwm sylfaenol wedi gwella sicrwydd incwm ac wedi cynyddu'r niferoedd sy'n manteisio ar addysg a chyfranogiad cymunedol. Fodd bynnag, mae hyn yn seiliedig ar dystiolaeth gyfyngedig, ac mae yna lawer o feysydd lle nad oes fawr o newid, os o gwbl, yn y canlyniadau. Mae incwm sylfaenol fel syniad ac fel cynnig yr un mor amlweddog a chymhleth â'r boblogaeth y mae ei gefnogwyr yn ceisio diwallu eu hanghenion.**

Mae amrywiaeth ei wrthwynebwyr a'i feirniaid yn ychwanegu at y cymhlethdod. Ar un adeg neu'r llall, mae rhyddfrydwyr, sosialwyr a ffeministiaid oll wedi ystyried math o incwm sylfaenol, sy'n cyd-fynd â'u safbwyntiau penodol, ac mae gan bob grŵp ideolegol, fel sbectrwm ynddo'i hun, gefnogwyr a beirniaid o ran incwm sylfaenol. Ynghyd â mudiadau llawr gwlad sy'n dod i'r amlwg sy'n hyrwyddo incwm sylfaenol fel opsiwn polisi hyfyw, mae incwm sylfaenol yn dod yn fwyfwy deniadol i ystod o bleidiau gwleidyddol fel ffordd bosibl o fynd i'r afael ag amrywiaeth o faterion. Mae angen i weithwyr proffesiynol iechyd cyhoeddus - a gweithwyr proffesiynol ym maes polisi cyhoeddus - wella eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r cysyniad er mwyn ymateb i gefnogaeth sy'n dod i'r amlwg i'r syniad.

Mae'r adroddiad hwn wedi amlinellu sut olwg allai fod ar incwm sylfaenol yng Nghymru, a sut y gallai weithredu. Mae'n amlwg nad oes unrhyw fath diffiniol o gynllun incwm sylfaenol y gellid ei gymhwyso'n gyffredinol mewn unrhyw wlad neu ardal benodol - mae cyd-destun lleol, fframweithiau deddfwriaethol lleol a blaenoriaethau lleol yn bwysig. Mae'r problemau ymarferol gyda datblygu cynnig cyflawn ac ystyriol ar gyfer incwm sylfaenol yng Nghymru yn

amlwg wrth edrych arno yn y cyd-destun datganoledig, lle mae gan Lywodraeth Cymru gyfyngiadau ar ei phwerau, yn enwedig o ran polisi cyllidol a lles, lle bydd angen rhoi'r sylw uniongyrchol mwyaf o ran polisi i incwm sylfaenol. Amlygwyd y cyfyngiadau hyn yn ddiweddar yn y cynigion yn yr Alban; mae'n amlwg bod yr un heriau yn berthnasol i gyd-destun Cymru.





Er mwyn llwyr ddeall effaith cynllun incwm sylfaenol ar bob rhan o gymdeithas, rhaid ystyried cyflwyno unrhyw gynigion peilot mewn ardaloedd ag amrywiadau o ran incwm, amodau'r farchnad lafur, demograffeg, statws iechyd a lefelau addysg, er mwyn asesu'r effeithiau ar incwm sylfaenol ar draws y newidynnau. Mae cyfle i incwm sylfaenol ddarparu enillion cymdeithasol sylweddol ar fuddsoddiad (SROI), ond er mwyn deall hyn yn llawn, bydd angen dadansoddiad cost a budd manwl.

O ran iechyd, prin yw'r dystiolaeth ar hyn o bryd sy'n dangos y gall incwm sylfaenol fynd i'r afael â chanlyniadau iechyd uniongyrchol (gweler tudalennau 27-34), oherwydd diffyg gweithredu cynllun incwm sylfaenol yn yr hirdymor mewn gwladwriaethau cymharol a'r ffaith nad yw canlyniadau iechyd yn un o'r prif ddulliau o fesur canlyniadau. Mae canfyddiadau cadarnhaol wedi'u nodi mewn treialon a chynlluniau a weithredwyd, sy'n dangos y gall cynllun incwm sylfaenol helpu i leihau tlodi, codi lefelau incwm a galluogi mwy o symudedd cymdeithasol, y gwyddom eu bod oll yn cyfrannu'n sylweddol at wella canlyniadau iechyd. Mewn perthynas ag iechyd, nodwyd gostyngiadau mewn derbyniadau i'r ysbyty, defnydd o'r gwasanaeth iechyd a llai o straen a phryder. Mae yna ystod eang o dystiolaeth mewn perthynas â'r effeithiau ar benderfynyddion ehangach iechyd, megis gwell cyrhaeddiad addysgol, tai o ansawdd gwell a mwy o ddiogelwch bwyd a gwell maeth. Mewn rhai enghreifftiau, megis cyfranogiad cynyddol yn y celfyddydau, mae tystiolaeth ynghylch a yw newidiadau yn y penderfynyddion hyn yn cael effaith uniongyrchol ar iechyd yn brin. Felly, rhaid ystyried bod ymrwymiad hirdymor i unrhyw dreial yn hanfodol er mwyn gallu mesur ei effeithiau eang gydag unrhyw sicrwydd - mae natur byrdymor yr arbrofion diweddar yn cyfyngu ar ddehongliad dilys o'u canfyddiadau, pa mor gadarnhaol bynnag y gallant ymddangos. Mae cynllun gwerthuso clir a chadarn yn angenrheidiol ar gyfer unrhyw gynllun incwm sylfaenol, ynghyd â'r ymrwymiad i ddarparu adnoddau priodol ar gyfer yr ymchwil hon yn yr hirdymor i sicrhau bod y canlyniadau'n cael eu mesur drwy gydol y cynllun.

Mae'r adroddiad hwn wedi ystyried effeithiau incwm sylfaenol ar benderfynyddion iechyd (gweler Adran 3). I gael rhagor o fanylion ac ystyriaeth ehangach o'r materion hyn, argymhellir yn gryf y dylid cynnal Asesiad o'r Effaith ar Iechyd cyn cynllunio ar gyfer datblygiad polisi arwyddocaol fel incwm sylfaenol; byddai hyn yn gwahodd ymgysylltiad rhagweithiol gyda chynrychiolwyr o'r sectorau ac ymgysylltu â'r cyhoedd i ystyried incwm sylfaenol yn gyffredinol. Gall Asesiad manwl o'r Effaith ar Iechyd helpu i nodi a lliniaru unrhyw bryderon ac effeithiau negyddol. Yn ogystal, argymhellir ymchwil sector-benodol i effeithiau posibl incwm sylfaenol (er enghraifft, yr effeithiau ar y celfyddydau) er mwyn cael gwybodaeth fanylach am benderfynyddion ehangach iechyd.

Dylid ystyried bod newidiadau mewn ffactorau iechyd, llesiant ac economaidd sy'n deillio o unrhyw gynllun incwm sylfaenol yr un mor bwysig; at hynny, mae'r fframwaith polisi presennol a gyflwynir gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn darparu lens ar gyfer fframio ac asesu dulliau polisi arloesol mor eang ag incwm sylfaenol yng Nghymru. Dylai unrhyw gynllun incwm sylfaenol arfaethedig ddefnyddio'r fframweithiau polisi a'r dangosyddion mesur canlyniadau presennol yng Nghymru.

Rhaid i ni hefyd ystyried sut mae unrhyw gynllun incwm sylfaenol yn cael ei ariannu, ac a allai hyn ynddo'i hun niweidio iechyd. Er enghraifft, dau o'r cynlluniau hirdymor mwy sylweddol sydd â chanlyniadau cymdeithasol cryf yw cynllun Gogledd Carolina a Chronfa Barhaol Alasga (gweler tudalennau 21, 26). Mae'r mentrau hyn yn dangos gwelliannau cadarnhaol mewn perthynas ag ystod o ffactorau i'r rhai sy'n elwa o'r taliadau dididend blynyddol a dwywaith y flwyddyn, gydag ymrwymiad i genedlaethau'r presennol a'r dyfodol o ran y modd y mae'r cronfeydd wedi'u sefydlu, ac yn achos Gogledd Carolina, mae prosiectau seilwaith cymunedol hefyd wedi cael eu rhoi ar waith ochr yn ochr â darparu incwm i unigolion. Ac eto, ni allwn osgoi'r ffaith bod y cynlluniau hyn yn cael



eu hariannu o'r hyn a ystyrir yn fentrau sy'n niweidio iechyd; gamblo ac echdynnu o'lew, yn y drefn honno. Mae hyn yn codi'r cwestiwn a yw hwn yn gyfaddawd derbyniol ar gyfer darparu incwm sylfaenol er mwyn gwella tegwch, iechyd a mwy. Yr hyn y gallwn ei ddysgu o'r enghreifftiau hyn yw'r dystiolaeth glir y gall cymunedau ddod yn fwy teg ac elwa o welliannau cymdeithasol, addysgol ac iechyd os rhoddir cyfran fwy iddynt o'r cyfoeth a gynhychir o'u cymuned. Wrth i ni bontio i oes sy'n fwy ymwybodol o'r amgylchedd, un syniad a ystyrir yn aml yw trethu carbon, a sut y gellid dosbarthu'r elw o hynny ymhlith

dinasyddion lleol. Gallai Cymru, neu unrhyw wlad arall, ystyried sut y gellid rhoi canran o refeniw o ddatblygiadau cynhyrchu ynni yn y dyfodol (gan gynnwys ynni adnewyddadwy) yn ôl i'r cymunedau yr effeithir arnynt, yn debyg i'r cynnig ar gyfer y Gronfa Cyfoeth Siâl yn Lloegr.

Cyn dyfodiad y pandemig COVID-19, mae'n amlwg y bu diddordeb cynyddol yn y syniad o incwm sylfaenol. Mae COVID-19 wedi cynyddu'r lefel hon o ddiddordeb. Heb os, bydd COVID-19 yn sioc sylweddol i'r economi, i'n hiechyd, ac i lawer, os nad pob un, o feysydd eraill mewn cymdeithas. Er bod gan incwm sylfaenol y potensial i wella safonau byw a rhoi enillion ar fuddsoddiad i unigolion a chymdeithas, bydd angen buddsoddiad sylweddol i ddatblygu, dylunio a gweithredu cynllun manwl gyda'r nod o fynd i'r afael â'r heriau economaidd a ddaw yn sgil COVID-19. Mae modelu economaidd llawn o gynllun incwm sylfaenol, wedi'i addasu i gyd-destun Cymru ac economi Cymru, yn hanfodol i hyrwyddo'r drafodaeth. Byddai angen i hyn gynnwys modelu effeithiau posibl y farchnad lafur sy'n benodol i Gymru a modelu gwahanol fathau o gynlluniau a lefelau incwm sylfaenol a ddarperir.

Nid polisi'n ymwneud ag incwm yn unig yw incwm sylfaenol. Mae ganddo'r potensial i effeithio ar lawer o feysydd polisi cyhoeddus. Mae hyn yn golygu bod amrywiaeth o ystyriaethau polisi i'w droi o fod yn syniad i gysyniad ymarferol, sy'n aibwysleisio'r angen am gynllunio a chyflawni unrhyw gynllun mewn ffordd amlddisgyblaethol yn y dyfodol. Yn y pen draw, gall dyluniad polisi gwael wneud pobl yn dlotach, mentro gwaethygu'r amodau rydym yn byw ynddynt, a pheidio â chyflawni'r nodau polisi a ddymunir o ran incwm sylfaenol. Mae angen i lunwyr polisi sy'n hyrwyddo incwm sylfaenol ystyried yr hyn y maent am i bolisi o'r fath ei gyflawni, sut y bydd yn cael ei ariannu dros yr hirdymor, pa bolisiau eraill y mae angen iddynt eu newid i wneud incwm sylfaenol yn llwyddiant, a phwy fydd yn gyfrifol am weithredu a gweinyddu'r polisi. Mae asesiadau effaith cadarn yn hanfodol er mwyn i'r syniad polisi eang hwn ennyn cefnogaeth eang, ac yn y pen draw i gynyddu ei lwyddiannau posibl i'r eithaf.

# Crynodeb - Ystyriaethau

## **Dylai'r rhai sy'n gweithio i wella iechyd a llesiant y boblogaeth ymgyswrtu â'r dadleuon allweddol ynghylch incwm sylfaenol ac ystyried effeithiau posibl unrhyw gynigion ar iechyd**

- Er mwyn sicrhau bod cynnig i gyflwyno incwm sylfaenol yn gadarn, rhaid i gynigwyr ystyried yr hyn y gall incwm sylfaenol ei wneud i wella iechyd a llesiant yng ngoleuni'r statws iechyd presennol a chyd-destun polisi cyhoeddus.

## **Rhaid i unrhyw gynigion incwm sylfaenol yn y dyfodol fod yn gredadwy, yn briodol ar gyfer y cyd-destun, ac yn glir ynghylch y nodau a'r amcanion**

- Mae cynnig cryf ar gyfer cynllun incwm sylfaenol yn gofyn am dull gweithredu amlsector, aml-ddisgyblaethol o ran dylunio'r cynllun, ei oruchwylio, ei reoli o ddydd i ddydd a'i werthuso. Rhaid i gyfranogiad y cyhoedd fod yn rhan gynhenid o'r broses ar bob cam.
- Rhaid i gynigion hefyd gynnwys arfarniad o'r hyn sy'n ymarferol yng nghyd-destun datganoli. Dylai hyn ystyried pa effaith y mae incwm sylfaenol yn debygol o'i chael ar feysydd polisi cyhoeddus datganoledig a heb eu datganoli.
- Rhaid datblygu a chyflawni cynllun i wneud gwaith modelu economaidd a chynnal astudiaethau dichonoldeb ac asesiadau effaith fel rhan o'r cynnig.

## **Os bydd incwm sylfaenol yn symud ymlaen o gynnig i gynllun peilot, mae'n bwysig:**

- Ymrwymo i'r cynllun peilot bara am gyfnod sy'n ddigon hir i gynhyrchu tystiolaeth o effaith. Dylai'r ymrwymiad hwn gynnwys darparu adnoddau ar gyfer monitro a gwerthuso'r cynllun peilot. Mae'n hanfodol monitro'r canlyniadau sy'n gysylltiedig ag incwm sylfaenol yn helaeth - mewn nifer o achosion, gellid defnyddio setiau data presennol i gyflawni hyn.
- Bod y cynllun incwm sylfaenol yn cael ei ddarparu gan ystod o randdeiliaid. Rhaid i'r rhanddeiliaid hyn fod yn ymrwymedig i'r cynllun peilot a bod yn barod i barhau i gyflawni'r cynllun yn y tymor hir, pe bai'n cael ei weithredu'n barhaol yn dilyn hynny.

## 6. Cyfeiriadau

- Ajuntament de Barcelona 2019. Report on the preliminary results of the B-MINCOME project (2017-2018). Combining a guaranteed minimum income and active social policies in deprived urban areas of Barcelona. Barcelona: Ajuntament de Barcelona. Ar gael yn: [https://ajuntament.barcelona.cat/dretssocials/sites/default/files/arxiu-documents/results\\_bmincome\\_eng.pdf](https://ajuntament.barcelona.cat/dretssocials/sites/default/files/arxiu-documents/results_bmincome_eng.pdf) [Fel ar: 16 Hydref 2019].
- Akee, RKQ et al. 2010. Parents' Incomes and Children's Outcomes: A Quasi-Experiment Using Transfer Payments from Casino Profits. *American Economic Journal: Applied Economics* 2(1), tud. 86–115. doi: 10.1257/app.2.1.86.
- Basic Income Scotland 2019. Scottish Citizens Basic Income Feasibility Project Update Report to Scottish Government. Ar gael yn: <https://basicincome.scot/wp-content/uploads/sites/75/2019/03/CBI-Feasibility-Study-Scottish-Government-Update-Report-5th-March-2019.pdf> [Fel ar: 26 Ebrill 2019].
- Basic Income Scotland 2020. Draft Final Report on the feasibility of Scottish Citizens' Basic Income pilots. Basic Income Scotland 10 Mehefin. Ar gael yn: <https://basicincome.scot/2020/06/10/draft-final-report-cbi-feasibility-study/> [Fel ar: 11 Mehefin 2020].
- Berman, M. 2018. Resource rents, universal basic income, and poverty among Alaska's Indigenous peoples. *World Development* 106, tud. 161–172. doi: 10.1016/j.worlddev.2018.01.014.
- Berman, M. a Reamey, R. 2016. Permanent Fund Dividends and Poverty in Alaska. Ar gael yn: [http://www.iser.uaa.alaska.edu/Publications/2016\\_12-PFDandPoverty.pdf](http://www.iser.uaa.alaska.edu/Publications/2016_12-PFDandPoverty.pdf) [Fel ar: 2 Gorffennaf 2020].
- Bott, C. 2017. Scotland's First Minister Announces Basic Income Experiments. BIEN 16 Medi. Ar gael yn: <http://basicincome.org/news/2017/09/scottish-universal-basic-income-experiments/> [Fel ar: 22 Mehefin 2020].
- Bowling, C. 2013. Cherokee casino hits earning milestone. Ar gael yn: <https://www.smokymountainnews.com/archives/item/10295-cherokee-casino-hits-earning-milestone> [Fel ar: 25 Mehefin 2020].
